CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



# Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

## *Adolygiad 2019/20*



# Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Rhagair Arweinydd y Cyngor** | **3** |
| **Cynllun Cryno** | **4** |
| **Atodiad 1 – Cynlluniau Adrannol** | **21** |
| **Addysg** | **23** |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **31** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **41** |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | **47** |
| **Amgylchedd** | **55** |
| **Economi a Chymuned** | **65** |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **77** |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **82** |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **94** |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol** | **100** |
| **Gwybodaeth Ariannol** | **102** |
| **Atodiad 2 – Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd** | **108** |


Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu anfonwch e-bost i cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000
Ymweld â'r wefan – www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor
Neu anfonwch e-bost i cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

Graffeg "designed by Freepik"

## RHAGAIR I GYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 – ADOLYGIAD 2019/20



Braint yw cael cyflwyno Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023 sydd wedi ei adolygu a'i addasu i adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn diwethaf, ac i ychwanegu rhai prosiectau newydd sydd ar y gweill.

Mae ei ddiwyg yn glir ac yn rhwydd i'w ddarllen a'i ddeall, a bydd yn sail i'n gwaith a'n hawydd i wella bywydau dinasyddion y sir.

Yng Ngwynedd ein huchelgais yw i gyflawni drwy fod yn arloesol ac yn effeithiol yn ein gwaith i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd. Yn ganolog i hyn rydym yn benderfynol o drawsnewid ein ffyrdd o weithio a chydweithio gyda phartneriaid ar sawl lefel. Gwneir hyn er gwaethaf gwasgfa ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a setliad ariannol hynod siomedig gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos diffyg dealltwriaeth a diffyg parch at waith llywodraeth leol. Eto fyth bu raid i ni chwilio am arbedion sylweddol ac fe wnaed pob ymdrech ac fe lwyddwyd i amddiffyn y gwasanaethau hynny sydd yn bwysig i bobl Gwynedd.

Mae'r Cynllun wedi ei baratoi yn dilyn ymgynghoriadau gyda'n cynghorwyr a gyda'r cyhoedd, ond croesawaf unrhyw sylw neu awgrym i wella ar ei gynnwys.

Mae'r rhan gyntaf, y Cynllun Cryno, yn ddatganiad o brif flaenoriaethau'r Cyngor gan adnabod y meysydd lle y mae angen newid ac ymdrech benodol i weithredu. Eto pwysleisiaf mai Cynllun i osod cyfeiriad i weithredu yw hwn nid rhestr o ddyheadau yn unig. Er hynny rhaid rhybuddio y gallai'r wasgfa ariannol gyfyngu ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau.

Yn yr ail ran fe fanylir ar wasanaethau holl adrannau'r Cyngor yn y Cynlluniau Adrannol. Wrth eu darllen, mae'n werth adlewyrchu ar yr holl feysydd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a phwysigrwydd rheiny i'n cymdeithas.

Mae ein hymrwymiad i arwain ac i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhob man ac ar bob achlysur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Mae hynny'n gydnaws ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn cydweithio â'n partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i weithredu ein cynlluniau llesiant.

Mae ein huchelgais dros bobl Gwynedd yn glir ac yn gadarn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn ein hwynebu dros y flwyddyn nesaf hon yn wyneb yr anrhefn yn San Steffan a'r effeithiau difrifol a allai hynny ei olygu i'n dinasyddion yma.

Er hyn, daliwn ati yma i weithredu ein Cynllun ac i warchod buddiannau ein pobl a'n cymunedau yma yng Ngwynedd.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,

Arweinydd Cyngor Gwynedd

# ADOLYGU'R CYNLLUN

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018. Pwrpas y Cynllun yw rhannu uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, gan ddweud pa waith y byddwn yn ei flaenoriaethu er mwyn gwireddu'r uchelgais honno.

Rydym wedi disgrifio'r prosiectau y byddwn am ganolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd yn rhan gyntaf y Cynllun, a'r rhain yw ein Blaenoriaethau Gwella. Mae ail ran y Cynllun, sef y Cynlluniau Adran, yn rhoi mwy o gig ar asgwrn y Blaenoriaethau Gwella yn ogystal â disgrifio sut mae gweddill ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol.

Rydym fel Cyngor yn adolygu ein gwaith yn gyson er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir. Mae Blaenoriaethau Gwella'r Cynllun hwn, ynghyd â gweddill gwaith dydd i ddydd y Cyngor wedi bod yn derbyn sylw yn Adroddiadau Herio Perfformiad Aelodau'r Cabinet sy'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet. Os oes angen gwneud mwy, neu lai, neu newid unrhyw brosiect, yna byddwn yn gwneud hynny.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, Adolygiad 2019/20, yn disodli'r fersiwn wreiddiol a cheir rhestr isod o'r prif addasiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn yr adolygiad:

Cwblhawyd y prosiectau canlynol neu maent wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yn ystod 2018/19 :

- **Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion**
- **Rhiantu Corfforaethol**

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu:

- **Darpariaeth Ôl-16**
- **Dalgylch Treferthyr**
- **Hybu Canol Tref**
- **Cynllun Prentisiaethau**

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

- **Tai Addas a Fforddiadwy ac Adnabod** a **Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai –** gwaith yn parhau fel rhan o brosiect **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd**
- **Trechu tlodi** – bydd y pwyslais yn newid i ganolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth a gynigir gyda'r teitl yn newid i **Cefnogi Llesiant Pobl**
- **Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion –** teitl wedi newid i **Merched mewn Arweinyddiaeth**

Fel y nodwyd eisoes, mae sefyllfa ariannol fregus Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae toriadau i'n cyllideb yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd tu hwnt. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar un llinyn mesur yn unig – yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu Cynllun Llesiant yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, heblaw am un, sef effaith newid hinsawdd.

Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.


**Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

**Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...**

- Greu economi hyfyw a ffyniannus
- Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

**...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.**



Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n caniatáu iddynt gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

**Y pethau yr ydym eisiau eu gwneud yn well :**

## Blaenoriaeth Gwella 1

## Creu economi hyfyw a ffyniannus.

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

**Adran Economi a Chymuned**

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth sy'n cynnwys chwe chyngor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion lansio Cais Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Nod y cais yw denu buddsoddiad busnes i Ogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth. Gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu, yn ogystal â busnesau a thai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy).

Rydym fel Cyngor yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n arwain ar **Weledigaeth Twf Gogledd Cymru**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod Gwynedd yn elwa'n deg o fuddsoddiad a ddaw i ranbarth Gogledd Cymru, ac yn parhau i gydweithio â'n partneriaid er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad hwnnw.

### 2. Cadw'r Budd yn Lleol

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% o'i gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

## 3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)

**Adran Economi a Chymuned**

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o **swyddi gwerth uchel**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai. Rydym yn targedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli.

## 4. Arloesi Gwynedd Wledig

**Adran Economi a Chymuned**

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio, gan dreialu nifer o syniadau newydd cyffrous. Gallwn symud ymlaen bellach i ddatblygu ein prosiectau fydd yn annog arloesedd yn y sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth), a gwella isadeiledd ddigidol cymunedau gwledig.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon fydd yn arwain ar y gwaith. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda Siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

## 5. Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

**Adran Economi a Chymuned**

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Mae cynnal **digwyddiadau mawrion** yn fodd i godi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld, ac yn leoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o ddigwyddiadau proffil uchel, a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.3m yng Ngwynedd yn 2017/18. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

## 6. Hybu Canol Tref

**Adran Economi a Chymuned**

Mae **canol trefi** bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr. Byddwn, felly, yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Gymreig.

## 7. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

**Adran Economi a Chymuned**

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Yn ystod 2018/19 dewiswyd yr ardaloedd llechi gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Hefyd, sicrhawyd dros £60,000 o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yma'n cynnwys rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwell gwedd a golwg i gymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid.

## 8. Elwa o Dwristiaeth

**Adran Economi a Chymuned**

Er mai Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

I'r dyfodol, byddwn yn cydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

## 9. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

**Adran Economi a Chymuned**

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

## 10. Cynllun Prentisiaethau

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd addas ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod 2019/20 byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

## Blaenoriaeth Gwella 2

**Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Dalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn (Y Bala), Dalgylch Treferthyr (Cricieth), Darpariaeth Ôl-16

**Adran Addysg**

Er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd.

Byddwn yn parhau, neu'n cychwyn gwaith i wella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau yn **Nalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn a Dalgylch Treferthyr.** Byddwn hefyd yn ystyried rhinweddau'r **Ddarpariaeth Ôl-16** presennol ar draws y sir er mwyn gweld sut y bydd yn gallu wynebu cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

### 2. Cryfhau Arweinyddiaeth

**Adran Addysg**

Mae angen i ni **Gryfhau Arweinyddiaeth** yn ein hysgolion er mwyn creu yr amgylchiadau gorau i'n dysgwyr gael y profiad dysgu gorau posib. Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd eu hangen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol, gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

### 3. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**Adran Addysg**

Rydym wedi adnabod bod angen i ni **Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad,** er mwyn sicrhau fod y plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i wireddu eu potensial. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, y ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-18 ac Ysgolion Arbennig.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.

## Blaenoriaeth Gwella 3

**Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

**Adran Economi a Chymuned**

Byddwn yn cynorthwyo mwy o **Bobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** a all arwain at fuddion o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau, yn ogystal â chynyddu eu henillion. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith a diweithdra yn uwch yn Arfon na'r cyfartaledd sirol, ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith.

### 2. Cefnogi Llesiant Pobl

**Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl i gyfarch eu hanghenion llesiant mewn ffordd hawdd, cydlynys ac sydd ar gael yn lleol.

Byddwn yn helpu pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

## 3. Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

**Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysau yn hanfodol er mwyn eu helpu i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Rydym eisoes wedi mapio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd, ac i'r dyfodol byddwn yn parhau i ddatblygu'r **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, megis y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau'r trydydd sector, a chymunedau Gwynedd.

## 4. Merched mewn Arweinyddiaeth

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Mae gan y maes Tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sydd yn gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd, darparu tai y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Llaw yn law â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.

## Blaenoriaeth Gwella 4

**Mynediad at gartrefi addas.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Byddwn yn gweithredu **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** gan gymryd y camau i sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas, nad oes neb yn ddigartref, a bod anghenion iechyd a llesiant yn cael eu cyfarch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cartrefi hyn yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac ein bod yn cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.

## Blaenoriaeth Gwella 5

**Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y sir. Byddwn hefyd yn annog pobl Gwynedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny.

### 2. Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Byddwn yn annog **Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg,** ac i weld y budd o gyfathrebu'n ddwyieithog wrth gynnig gwasanaeth. Byddwn yn ystyried sut orau all y Cyngor hyrwyddo hyn a sut fedrwn ni a sefydliadau eraill ddylanwadau fwyaf effeithiol ar ddefnydd busnesau a'u cwsmeriaid o'r Gymraeg.

### 3. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor,** a bydd pwyslais y cyfnod nesaf ar weithio gyda gwasanaethau rheng-flaen i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

## 4. Strategaeth Iaith Uwchradd

**Adran Addysg**

Byddwn yn datblygu ar waith arloesol y Siarter Iaith i ysgolion cynradd drwy ymestyn y gefnogaeth i **Strategaeth Iaith Uwchradd.** Nod y strategaeth yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch.

Nodwedd arall o Wynedd yw'r ffaith fod gennym ganran uwch o bobl hŷn yn byw yma nag mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Tra bod y Cyngor wedi bod yn dda iawn am ddarparu cefnogaeth i'r bobl hynny o bob oed sydd angen gofal, mae'r cynnydd yn niferoedd y bobl hŷn, y cyfyngiadau ariannol a thrafferthion darganfod gweithlu i fedru parhau i ddarparu'r gwasanaethau yma yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl am atebion gwahanol.

Y gwir amdani yw bod nifer fawr o bobl hŷn am barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant sydd yn aml yn golygu pethau gwahanol i wahanol unigolion. Mae angen i ni newid ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth.

Ein gweledigaeth yw bod ein gwasanaethau cymunedol yn cael eu trawsnewid fel bod cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl yn cael ei ddarparu yn eu cartrefi ac o fewn eu cymunedau eu hunain. Trwy'r dull yma fe welwn well canlyniadau i unigolion, a bydd y galw am dderbyniadau i'r ysbyty a darpariaeth gofal yn lleihau dros amser. Mae cynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'n rhaid i ni barhau i drawsnewid gwasanaethau gofal.

## Blaenoriaeth Gwella 6

## Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Byddwn yn **Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal** ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad hawdd ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Mae 5 Tîm Ardal wedi eu sefydlu ar draws y sir, gan ddod â gweithwyr a darparwyr gwasanaethau gofal ac iechyd at ei gilydd er mwyn cydweithio i ymateb i anghenion y boblogaeth leol. Hyd yma mae'r cydweithio hwn wedi bod yn galonogol iawn ac felly byddwn am barhau i drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol i'r dyfodol.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i arbrofi hefo ffyrdd newydd o ddarparu pecynnau gofal cartref, ac yn edrych ar gydweithio a chydgynllunio yn y maes anableddau dysgu. Byddwn am weld bod trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Byddwn hefyd yn parhau gyda gwaith i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl, a sicrhau gofal addas i unigolion mewn argyfwng yn y maes iechyd meddwl.

## 2. Gwydnwch Cymunedol

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Byddwn yn cydweithio efo cymunedau er mwyn cynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau cyn hired ag sy'n bosibl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cynyddu'r opsiynau gofal i bobl o fewn eu cymunedau gan gysylltu'r rhai sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, gan adeiladu ar gryfderau unigolion, adnabod bylchau sy'n bodoli a thrwy hynny hybu gweithgarwch cymunedol.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn gan geisio gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol a'r ffordd orau i ymateb i hynny.

## 3. Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes Gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Mae gwaith eisoes ar y gweill er mwyn ceisio deall beth yw'r broblem yng Ngwynedd o ran recriwtio yn y maes. Ar ôl cyhoeddi'r canfyddiadau, byddwn yn ystyried os oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol neu yn ychwanegol. Dengys canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy hyrwyddo llwybrau gyrfaol yn y maes ac adolygu ein cynllun prentisiaethau o fewn y Cyngor, fel bod gyrfa o fewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ym mhobman o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, a sicrhau fod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu o reidrwydd yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

## Blaenoriaeth Gwella 7

**Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Arfogi Unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar Waith

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaeth hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.

Byddwn yn adolygu ein trefniadau gwaith presennol gan herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella. Mae gwaith eisoes wedi ei wneud i hyfforddi penaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr yn egwyddorion **Ffordd Gwynedd**, ac mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith.

Yn y dyfodol byddwn yn parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd ac yn cefnogi gwasanaethau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gweithgareddau.

## 2. Datblygu Arweinyddiaeth

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Byddwn yn **Datblygu Arweinyddiaeth** trwy fod yn flaengar yn arfogi a miniogi sgiliau arweinwyr ar draws y Cyngor er mwyn cyrraedd y nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod y rhan helaeth o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau rhaglen ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau arwain.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Yn ogystal bydd y 'Rhwydwaith Rheolwyr' yn cael ei ailsefydlu er mwyn rhoi cyfle i reolwyr ar draws y Cyngor i rannu arfer da a derbyn hyfforddiant.

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a'r gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r holl Flaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r wasgfa ariannol sy'n cael ei gosod ar y Cyngor yn parhau, gyda lleihad pellach yn y grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20. Ar yr un pryd mae'r galwadau ychwanegol am wasanaethau a chwyddiant yn cynyddu ein costau o £13m. Os am barhau i fedru cyfarch y materion hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd bydd angen i ni ychwanegu at y £51m o arbedion yr ydym eisoes wedi gorfod eu darganfod dros yr 8 mlynedd ddiwethaf gan wireddu £5.5m o arbedion pellach. Hyd yn oed wedyn bydd angen i'r Dreth Gyngor gynyddu hefyd.

Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn mynd i fod yn ddibynnol ar y blaenoriaethau a nodir uchod.

Gellir gweld y Strategaeth yn llawn ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon –

www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol

# Cynlluniau Adran

Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Cynllun Cryno, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y 5 mlynedd o 2018-23.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor, gan roi mwy o gig ar asgwrn y Blaenoriaethau Gwella sydd wedi eu hamlygu gyda ffrâm o'u hamgylch. Maent hefyd yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd yr rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor, a byddwn angen rhoi ystyriaeth bellach i sut allwn ni ymateb iddynt. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefndir lliw iddi.

Mae'r Cyngor yn dilyn egwyddorion cyffredinol ac yn gweithredu mewn meysydd sy'n croesi ar draws gwaith sawl adran, megis cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ymdrechu yn erbyn tlodi ac yn y blaen. Er fod cyfrifoldeb ar bob adran i weithredu arnynt mae'r disgrifiad o'r gwaith wedi ei nodi yng Nghynllun yr Adran sy'n arwain arno.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.


| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 1. | **Adran Addysg** | **Garem Jackson** Manylion Cyswllt | 23 |

- Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion Gwynedd
- Cefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modern
- Darparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Arwain ar weithrediad y Siarter Iaith yng Ngwynedd a thrwy Gymru

| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 2. | **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **Aled Davies** Manylion Cyswllt | 31 |

- Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"
- Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithio
- Cynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl
- Cefnogi teuluoedd digartref ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer tai cymdeithasol a thai fforddiadwy.

| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 3. | **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **Steffan Jones** Manylion Cyswllt | 41 |

- Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd
- Cynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sir
- Torri gwair a chynnal meysydd chwarae

## 4. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd — Marian Parry Hughes, Manylion Cyswllt — 47

- Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed
- Gweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifanc

## 5. Adran Amgylchedd — Dafydd Wyn Williams, Manylion Cyswllt — 55

- Gwasanaethau Cynllunio a Thrwyddedu
- Archwiliadau hylendid bwyd a safonau masnach
- Rheoli eiddo'r Cyngor
- Gwasanaeth rheoli parcio a rheoli pla
- Gwarchod a hyrwyddo mynediad i gefn gwlad

## 6. Adran Economi a Chymuned — Sioned E Williams, Manylion Cyswllt — 65

- Datblygu Economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Canolfannau Hamdden

## 7. Ymgynghoriaeth Gwynedd — Huw Williams, Manylion Cyswllt — 77

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

## 8. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol — Geraint Owen, Manylion Cyswllt — 82

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cyfathrebu a Hyfforddiant
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

## 9. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) — Dafydd L Edwards, Manylion Cyswllt — 94

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor

## 10. Gwasanaeth Cyfreithiol — Iwan Evans, Manylion Cyswllt — 100

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru

## 11. Gwybodaeth Ariannol — 102

# Adran Addysg

# Adran Addysg

**Pwrpas yr Adran Addysg yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.**

## GWASANAETH GWELLA YSGOLION

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 86 o ysgolion cynradd, 13 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig ac 1 ysgol ddilynol.

### Perfformiad Haf - Uwchradd

**Canran y disgyblion Cyfnod Allweddol 3 (14 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth**

| Haf 2016 | Haf 2017 | Haf 2018 |
|---|---|---|
| 92.0% | 92.8% | 92.8% |

**Canran y disgylion 15 oed (ar y 31 Awst blaenorol) sydd yn ennill 5 gradd TGAU A*-C, gan gynnwys Cymraeg (iaith), neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Mathemateg (rhifedd) (TL2+)**

**54.6%**

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed, gyda 43.8% o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn 2018 yn ennill 5 gradd TGAU A*-C, gan gynnwys Cymraeg (iaith) neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Mathemateg (rhifedd) (TL2+).

Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol y Berwyn, yn ardal Y Bala

**Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth**

| Haf 2016 | Haf 2017 | Haf 2018 |
|---|---|---|
| 89.8% | 92.1% | 91.2% |

**Perfformiad Haf 2018 – Cynradd**

**Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS))**

**81.7%**

## Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwyllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

## Cryfhau Arweinyddiaeth

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth, a hynny er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr, yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth. Rydym yng Ngwynedd yn sicrhau bod ein cynlluniau i ddatblygu arweinyddiaeth yn cefnogi a galluogi'r bwriad i drawsnewid y gyfundrefn addysg i'r dyfodol ar sail yr egwyddorion, gan hefyd gymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd ei angen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a chynorthwyo'r gyfundrefn er mwyn sicrhau'r amodau gorau i arweinyddiaeth addysgol allu ffynnu. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

## TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2021 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu ysgolion er lles plant y Sir.

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.




## Darpariaeth Ôl-16

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae amrywiaeth yn y ffordd y caiff addysg ôl-16 ei ddarparu ar draws y sir. Caiff addysg ôl-16 ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uwchradd a'r colegau yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol y Berwyn, yn ardal Y Bala.

Byddwn yn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau gwaith ymchwil ynghyd ag adroddiad ar y ddarpariaeth gyfredol ar draws y sir a fydd yn sail i ystyried a oes achos dros newid ai peidio i'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

## Dalgylch Bangor

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae nifer o ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor (ac yn arbennig yn ardal Penrhosgarnedd) yn llawn neu'n orlawn. Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg o fewn y dalgylch, gyda'r Cyngor yn darparu hanner yr arian hefyd ynghyd â chyfraniadau a ddaw yn sgil caniatâd cynllunio i ddatblygu tai newydd o fewn yr ardal.

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun, adeiladir ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd ar gyfer 420 o ddysgwyr fydd wedi ei gwblhau erbyn Medi 2020. Byddwn hefyd yn cychwyn ar y gwaith o addasu safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol ar gyfer 315 o ddysgwyr fydd hefyd yn cynnwys gofod cymunedol fydd wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2021.

## Dalgylch y Berwyn, Y Bala

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu ad-drefnu addysg yn nalgylch y Berwyn er mwyn rhesymoli'r gyfundrefn ysgolion a gwella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau.

Mae'r gwaith adeiladu wedi dirwyn i ben, ac yr ydym wedi agor Llyfrgell, Theatr, Neuadd Chwaraeon a chae pêl-droed bob tywydd sydd yn adnodd ar gyfer holl ysgolion y dalgylch yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau'r broses o sefydlu'r corff llywodraethol a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd.

## Dalgylch Treferthyr, Cricieth

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Treferthyr, Cricieth yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r adeilad newydd erbyn Medi 2021. Bydd yr ysgol yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ynghyd â gofod i'r cylch meithrin.

## GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliaeth i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

### Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**Blaenoriaeth Gwella 2**

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach yn parhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth. Craidd y gwaith yma fydd sicrhau fod ein systemau yn cyd-fynd â gofynion Deddfwriaeth newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

## GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson dda.

**Canran presenoldeb mewn ysgolion**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 95.4% | 95.3% | 94.8% |
| Uwchradd | 95.0% | 95.2% | 94.7% |

**Canran o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion (blwyddyn hyd at haf 2018):**
**Cynradd – 5.2%**
**Uwchradd – 5.3%**

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her.

Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chyngor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

## YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu.

Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod. Mae'r Adran hefyd wedi arwain a chefnogi Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Siarter Iaith yn genedlaethol.

### Strategaeth Iaith Uwchradd — Blaenoriaeth Gwella 5

Yn sgil llwyddiant y Siarter, mae galw cynyddol wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth o waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn profi'r angen am gynllun a strategaeth i hyrwyddo'r defnydd cwricwlaidd a chymdeithasol o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd.

Rydym yn parhau i gyflogi Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r Canolfannau yma yn allweddol i helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

## GWASANAETH Y SWYDDFEYDD ARDAL

### Swyddfeydd Addysg Ardal

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Swyddfeydd Addysg Ardal er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwneir hynny drwy ddatblygu rôl y Swyddogion Busnes a Gwasanaethau i gydlynu a hwyluso gwaith partneriaethol rhwng yr ysgolion eu hunain, a rhwng adrannau'r Cyngor, er mwyn lleihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

## GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr.

# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.**

**Prif egwyddorion yr Adran yw:**

- **Sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth**
- **Bydd ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl, ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt**
- **Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithredu**
- **Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.**

**Mae'r pedwar egwyddor uchod yn plethu i gyflawni un nod yr Adran sef i alluogi i oedolion Gwynedd : "*Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw*"**



## Tai

Rydym fel Gwasanaeth Tai yn gweithredu i atal digartrefedd yn ogystal â darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym yn cefnogi pobl i gynnal a diogelu eu tenantiaeth, ac yn sicrhau bod tai amlddeiliadaeth yn ddiogel ac yn cwrdd â safonau diogelwch.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer datblygu tai cymdeithasol o'r newydd a chynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy. I'r dyfodol, byddwn yn anelu i gynyddu'r niferoedd drwy wneud y gorau o'r grantiau ddaw gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â chymdeithasau tai. Rydym hefyd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin mewn partneriaeth â chymdeithasau tai ac yn blaenoriaethu ceisiadau am eiddo cymdeithasol. Byddwn yn anelu i gynyddu'r nifer o gartrefi drwy dargedu eiddo gwag ar draws Gwynedd er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd addas. Byddwn hefyd yn archwilio tai rhent er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safon dderbyniol.

Gwaith arall sydd gennym yw asesu a darparu addasiadau ar gyfer cartrefi pobl a phlant anabl er mwyn helpu unigolion i allu parhau i fyw yn annibynnol ac i geisio lleihau dibyniaeth a galw ar wasanaethau eraill.

### Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24 — Blaenoriaeth Gwella 4

Un o'r heriau mwyaf i Wynedd yw sicrhau digon o dai pwrpasol ac o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid. Yn ystod 2018/19 buom yn canolbwyntio ar weithredu 2 brosiect er mwyn gwella mynediad pobl Gwynedd at dai addas. Roedd y 2 brosiect, sef **'Tai Addas a Fforddiadwy'** ac **'Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai'** yn asesu'r sefyllfa gyfredol, a chan ddefnyddio canlyniadau'r asesiadau daeth yn amlwg bod angen i ni ailgynllunio ein darpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael, ac mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Nid yw ein ymateb hyd yma yn cyfarch anghenion y boblogaeth leol rŵan nac i genedlaethau'r dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yma, rydym wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, gwella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi unigolion sydd yn dioddef o drais yn y cartref, problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau yn ogystal â'r rhai sydd yn dangos ymddygiad heriol/ gwrth gymdeithasol sydd mewn perygl o golli eu tenantiaeth.

O 2019/20 ymlaen byddwn yn cymryd camau i wireddu blaenoriaethau'r Strategaeth Tai (2019-24) er mwyn :

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas
- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cyfarch anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd
- Sicrhau bod cartrefi pobl Gwynedd yn gyfeillgar i'r amgylchedd
- Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel lleol.

**Blaenoriaeth Lleol**

Mae yna bryder bod nifer uchel o dai aml-ddeiliadaeth (Houses in Mulitiple Occupation – HMOs) ym Mangor, gan effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.

Mae'r materion uchod yn derbyn sylw o fewn y Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024



## Llesiant

Mae'r Uned Llesiant wedi ei sefydlu i hyrwyddo egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), sef yr angen i weithio'n ataliol ac i gydweithio ag unigolion a chymunedau er mwyn canfod yr atebion gorau i wella lles ein trigolion.

Rydym yn hybu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau ac yn hyrwyddo elfennau llesiant mewn Cynlluniau Gofal a Chymorth. O safbwynt dyletswydd yr Adran i ddarparu "gwybodaeth, cyngor a chymorth" o dan y Ddeddf, rydym yn datblygu adnoddau megis Dewis Cymru ac yn gobeithio sefydlu hybiau gwybodaeth leol, trwy ddatblygu rôl "cysylltwyr cymunedol" a chydweithio'n agos gyda mudiadau trydydd sector, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a chyda'r trigolion eu hunain.

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i gefnogi gofalwyr anffurfiol ac yn codi eu proffil ymysg y gweithlu er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr. Rydym yn

cydweithio yn agos gyda gwasanaethau eraill oddi mewn i'r Cyngor trwy sefydlu Partneriaeth Ddysgu Iechyd Meddwl Gwynedd gan gydweithio gyda Llyfrgelloedd, Rhaglenni Byw'n Iach, yr Uned Celfyddydau a'r Tîm Adfywio Bro. Rydym hefyd yn cydweithio â phartneriaid allanol sy'n darparu gwasanaethau llesiant emosiynol a chymdeithasol i drigolion Gwynedd. Drwy Gynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd 2017-18 datblygwyd prosiect Pontio'r Cenedlaethau oedd yn dod â'r hen a'r ifanc at ei gilydd ac sydd wedi profi llwyddiant mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd. Mae'r prosiect bellach yn cael ei werthuso gan Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia Prifysgol Bangor. Bydd yn bwysig cydweithio gyda chymunedau Gwynedd i barhau i hyrwyddo cymunedau cyfeillgar i ddementia sy'n adeiladu ar lwyddiant y prosiect Dementia Go. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwydnwch cymunedol fydd yn adeiladu ar gryfderau cymunedau Gwynedd i atal y galw am wasanaethau gofal a chymorth.

## Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal


**Blaenoriaeth Gwella 6**

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt. I'r perwyl hwn rydym, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, wedi sefydlu 5 Tîm Ardal lleol sydd yn darparu gwasanaeth di-dor. Mae'r timau yma yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned ac yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n darparwyr gwasanaethau gofal ac yn arbrofi efo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref. Mae canlyniadau'r arbrawf yma wedi bod yn hynod gadarnhaol a byddwn yn symud ymlaen i ail gomisiynu gan ddefnyddio'r ffordd newydd.

Mae'r maes Anableddau Dysgu yn datblygu ac yn aeddfedu. Mae cyd weithio a chyd-gynllunio da wedi digwydd ar draws y maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hyderwn y bydd y cyfleoedd i wneud mwy gyda'n darparwyr yn lleol yn amlygu eu hunain dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol.

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol a hynny ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol megis iechyd, y trydydd sector a gofalwyr. Bydd ein Timau Ardal wedi eu cyd-leoli mewn 'clwstwr' ehangach o ddarparwyr a gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, fel mae'r darlun isod yn ddangos. Bydd hyn yn cynnwys datblygu hybiau iechyd a gofal o fewn ardaloedd Bangor a Dyffryn Nantlle. Bydd ein hasesiadau poblogaeth a llesiant yn ein galluogi ni i sicrhau bod gwasanaethau o fewn y 'clystyrau' yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol, yn cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr ac yn cael eu cydlynu yn ddi-dor o amgylch anghenion yr unigolyn.




Rydym yn symud i ddull o weithio sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol. Trwy'r dull yma o weithio byddwn yn gweld gwell deilliannau i unigolion, galluogi pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau mor hir â phosib a bydd llai o angen am ofal dwys. Byddwn yn buddsoddi yn ein hadeiladau ar draws ein gwasanaethau, rydym eisoes wedi buddsoddi yn ein Cartrefi Preswyl yn Nhywyn, Nefyn, Llan Ffestiniog a Bangor. Byddwn dros y flwyddyn sydd i ddod yn parhau gyda'r rhaglen waith o ran gwella ein darpariaeth gofal dwys, bydd hyn yn golygu datblygu Unedau Dementia yng nghartrefi Cefn Rodyn, Hafod Mawddach a Phlas Hedd.

Byddwn yn parhau gyda'n prosiect Gofal Cartref sydd wedi bod yn treialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae hefyd yn ymateb i broblemau megis y diffyg gwasanaeth gofal ac iechyd yn rhai ardaloedd o'r sir, a allai arwain at bobl yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hirach nag y dylent. Mae'n rhaglen waith o newid diwylliant ac mae canfyddiadau cynnar y prosiect yn addawol iawn a bydd yn dylanwadu ar sut y byddwn yn comisiynu gofal cartref i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill i weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl. Y flaenoriaeth gychwynnol ydi sicrhau bod gofal addas ar gael pan mae unigolion mewn argyfwng. Fel rhan o'r gwaith yma, rydym yn edrych ar ddatblygu gwasanaeth sydd yn ymateb i anghenion unigolion 7 diwrnod yr wythnos 9yb-7yh. Y bwriad yw sicrhau bod unigolion yn cael mynediad amserol at wasanaethau addas.

Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledd dysgu.

## Gwydnwch Cymunedol

## Blaenoriaeth Gwella 6

Bydd dull system gyfan o ddarparu iechyd a llesiant fel sydd yn cael ei ddisgrifio yn 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal' uchod yn mynd tu hwnt i ddarparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu mewn gofal preswyl. Bydd gweithgareddau cymunedol a chysylltiad rheolaidd â ffrindiau a chymdogion yn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol. Bydd gweithio o fewn trefn 'clystyrau' yn galluogi'r holl asedau cymunedol i gyd-weithio yn ddi-dor er lles yr unigolyn.

Rydym wedi bod yn ysgogi a chefnogi cymunedau Gwynedd i fod yn wydn. Mae'r gwaith yma wedi arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur sydd wedi cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl. Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi cychwyn ers Medi 2017 ac mae unigolion o'r trydydd sector yn gweithio oddi mewn i'n Timau Ardal. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny, ynghyd ag adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol. Byddwn yn ehangu'r cynllun yma er mwyn sicrhau ei fod yn ran annatod o waith dydd i ddydd ein gwasanaethau. Mae hyn yn allweddol ar gyfer asesu'n barhaus anghenion ein poblogaeth ar lefel leol.

---

Ein bwriad dros y blynyddoedd nesaf yw parhau i edrych ar gyfleoedd i adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda gofalwyr i geisio dod i ddatrysiadau cywir er budd y rhai sydd angen gofal. Ar lefel ranbarthol rydym wedi datblygu a chyd-gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth rydym yn ymrwymo i'w cyflawni. Dros gyfnod byddwn yn sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau.

Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut mae gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu a dechreuwyd prosiect arloesol Pontio'r Cenedlaethau fis Mai 2018. Ei bwrpas yw atal unigrwydd rhwng plant, pobl ifanc a phobl hŷn trwy ddod a hwy at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a diddorol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar y 5 Ardal.


Mae'r Bartneriaeth Dysgu wedi ei sefydlu o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl er mwyn edrych ar waith ataliol a llesiant unigolion sydd yn seiliedig ar y *'Pum ffordd at les'*. Mae'r Bartneriaeth yn datblygu llyfryn sydd yn nodi pa gefnogaeth sydd ar gael o fewn gwahanol ardaloedd o fewn y sir. Ein bwriad yw datblygu grwpiau fydd yn cefnogi'r gwaith yma.



## Oedolion

Rydym fel gwasanaeth Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag oedolion dros 18 mlwydd oed, oedolion ag anabledd corfforol a phobl hŷn i adnabod yr hyn sydd yn bwysig iddynt, a'u cefnogi i ddod o hyd i ddatrysiadau i gyflawni eu hamcanion personol. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion yn unol ag egwyddorion Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (2014) mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.

I'r dyfodol, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith effeithiol rhyngom fel Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.




## Anableddau Dysgu



Rydym fel gwasanaeth Anableddau Dysgu yn darparu cefnogaeth weithgar ar sail egwyddorion Cefnogaeth Actif a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol mewn dull 'person yn ganolog' sydd yn canolbwyntio ar allbynnau lles cadarnhaol i'r unigolyn. Rydym yn asesu yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (2014) mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn hybu gwasanaethau integredig gan barhau i ddatblygu'r berthynas bositif gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill, gan gynnwys iechyd, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, er mwyn cyfarch ystod eang o anghenion pobl gydag anableddau dysgu.

Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ataliol ar draws y sir a fydd yn cynnwys ffocws ar anghenion oedolion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Yn ogystal, rydym eisiau canolbwyntio ar ddarpariaeth sydd yn datblygu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu perthnasoedd. Fel ffordd ymlaen i gyfarch y nod yma, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu hybiau cymunedol o amgylch y sir.

Byddwn yn datblygu fframwaith gofal ysbaid yn ystod 2019, a byddwn yn anelu i ddatblygu darpariaeth gofal ysbaid yn ardal Pwllheli.

Mae gwaith y tîm Cefnogaeth Actif a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol dros y flwyddyn diwethaf wedi arwain at ddatblygiadau positif i drigolion y sir. Prif ffocws y tîm yma dros y blynyddoedd nesaf fydd canolbwyntio yn benodol ar waith ataliol.

Nod craidd arall y gwasanaeth yw parhau i ddatblygu cyfleoedd dydd i bobl ag anghenion dwys a chymhleth. Rydym yn anelu i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod cyfleoedd lleol ar gael ar gyfer yr oedolion yma, er mwyn iddynt allu byw, derbyn cefnogaeth a mynychu cyfleoedd dydd yn eu cynefin. Fel rhan o'r gwaith yma, rydym am weithio i ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael fel rhan o Gynllun Cymunedol Arfon. Mae'n holl bwysig ein bod yn cydweithio gyda'r holl ddarparwyr lleol ac yn parhau i ddatblygu gwaith y Grŵp Trawsffurfio Anableddau Dysgu.



## Iechyd Meddwl

Rydym fel Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd gan weithio'n amlddisgyblaethol. Rydym yn gweithredu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, i gefnogi unigolion efo problemau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio efo unigolion er mwyn hyrwyddo adferiad ac i'w cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.


Mae'r mesur yn canolbwyntio ar anghenion unigolion yn hytrach na 'diagnosis' ac mae'n cael ei arwain gan y prif egwyddorion a ganlyn:

- Cynnwys cleifion a'u gofalwyr wrth gynllunio, datblygu a gweithredu'r cynllun gofal a thriniaeth
- Cydraddoldeb, urddas ac amrywiaeth - angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi ystyriaeth i hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb, oed ac unrhyw anabledd wrth gynllunio a darparu gwasanaeth
- Mae angen sicrhau bod cleifion a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cynllunio ac felly mae angen cyfathrebu'n glir drwy fod yn ymwybodol o iaith a diwylliant y claf
- Mae'r cynllun gofal a thriniaeth angen bod yn holistig ac yn rhoi'r person yn ganolog
- Mae'r cynllun gofal a thriniaeth angen bod yn gymesur i'r angen a'r risg. Mae hyn yn cydnabod nad oes gan bawb anghenion dwys a bod cymorth syml yn gallu gwella ansawdd bywyd a dylid sicrhau bod y gofal a'r driniaeth yn integredig. Mae'r gweithwyr proffesiynol angen cydnabod bod amrediad o wasanaethau a all gynorthwyo unigolion boed hynny'n statudol neu'n wirfoddol.



## Uned Diogelu

Mae'r Uned Diogelu yn rhoi cefnogaeth i staff yr Adran i ddilyn y drefn diogelu. Rydym yn cydweithio'n agos efo'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol er mwyn creu gweithdrefnau rhanbarthol.




Mae cyfathrebu cyson efo darparwyr, y Bwrdd Iechyd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn rhannu pryderon ac ymarfer da. Mae'r Uned yn gyfrifol am fonitro darparwyr mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a'r gofal sydd yn cael eu darparu a'u comisiynu o ansawdd uchel. Mae'r Uned hefyd yn cynnal archwiliadau o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dysgu am brofiadau gwael ac ymarfer da. Rydym yn gosod cysondeb ynghylch beth sydd yn cael ei ystyried yn achos diogelu neu beidio, yn arwain ar achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sydd yn cefnogi ac amddiffyn pobl sydd yn methu gwneud penderfyniadau eu hunain nac yn gallu rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.



## Darparu

Rydym fel Gwasanaeth Darparu yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys a chymhleth.

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod :

- Darpariaeth Gofal Preswyl (11 o gartrefi preswyl sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, gyda 2 yn gartref ag unedau dementia ac 1 yn arbenigo mewn gofal dementia pur)
- Darpariaeth Gofal Cartref
- Gofal Galluogi a Chanolraddol (gofal dros dro)
- Gofal Cynhaliaeth (gofal hir dymor)
- Darpariaeth Gofal Dydd (4 ar draws y sir, 1 yn cynnig gofal arbenigol ar gyfer pobl sydd yn byw efo Dementia)

**Blaenoriaeth Lleol**

Mae potensial i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol yn ardal Dolgellau a byddwn yn archwilio i'r posibiliadau o gydweithio â phartneriaid eraill er mwyn ariannu cynllun o'r fath. Mae galw tebyg am unedau pwrpasol ar gyfer trigolion Llŷn, a thrwy gydweithio ag eraill gallwn fesur yn union pa ddarpariaeth sydd ei hangen, a sut orau i'w chyllido.
Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y rhaglen gwella 'Ail Ddylunio Gofal.'

## Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

**Blaenoriaeth Gwella 6**

Bydd ein llwyddiant i wireddu 'Blaenoriaeth Gwella 6' yn ei gyfanrwydd, sef 'Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y maent yn dymuno' yn ddibynnol ar sicrhau gweithlu ar gyfer y Maes Gofal. Mae recriwtio i'r Maes Gofal yn heriol am amryw o resymau a thra bod gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol i ddiwallu'r angen cynyddol sy'n codi.

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem ac rydym wedi comisiynu ymchwiliad annibynnol i'r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i'r Cyngor.

Yn ystod 2019/20 byddwn yn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw argymhellion ddaw o adolygiad craffu, gan benderfynu beth ddylid ei wneud yn ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn sydd ar waith yn barod. Mae canfyddiadau dechreuol yr ymchwil yn amlygu amryw ffactor allweddol sy'n cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Rydym hefyd yn cydnabod, yn ogystal â chael y cymysgedd sgiliau cywir, bydd angen newid diwylliannau ac ymddygiadau ac i hyrwyddo cymryd risgiau positif, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau academaidd i ddatblygu a chyflawni hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaeth o fewn y Cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.



## Gwasanaeth Busnes

Mae'r Gwasanaeth Busnes yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Yn benodol er mwyn hwyluso trefniadau gwaith effeithlon, darperir rheolaeth a chymorth o ran systemau technoleg gwybodaeth yn ogystal â chefnogaeth weinyddol i'r Timau dan sylw. Cynigir hefyd amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i weithwyr ar draws y maes gofal er mwyn sicrhau fod gennym y gweithlu mwyaf addas i ofalu am drigolion y sir i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt trwy sicrhau fod unrhyw un sy'n derbyn gofal yn derbyn cyngor a chefnogaeth ariannol briodol, a thrwy hyn byddant yn llawn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ariannol sydd ynghlwm â'u dewisiadau gofal. Pan fo angen, mae darpariaeth hefyd yn ei le ar gyfer rheoli arian trigolion bregus sydd â neb i'w cynorthwyo. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cefnogaeth fusnes i wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth megis Taliadau Uniongyrchol a Thechnoleg Gynorthwyol.

Y Gwasanaeth Busnes sy'n gyfrifol am gasglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn caffael a chomisiynu gwasanaethau yn effeithiol, a hynny mewn maes ble mae'r galw yn cynyddu ac adnoddau yn prinhau. Yn ogystal â hyn mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a gyrru newid er mwyn galluogi i'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant gyflawni'r prosiectau a fydd yn trawsnewid ein gwasanaethau i bobl Gwynedd i'r dyfodol.

# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol


Mae’r Adran hon yn gofalu am asedau ac yn darparu gwasanaethau pwysig er mwyn sicrhau amgylchedd glân a diogel i drigolion Gwynedd.

## Cynnal Priffyrdd




Mae’n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae’r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **Gefnffyrdd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.

Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae’r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a Di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae’n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd gennym her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a Di-ddosbarth.




| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth A | 4.40% | 3.50% | 3.10% | 3.50% | 3.30% |
| Dosbarth B | 4.70% | 3.70% | 3.40% | 3.90% | 3.80% |
| Dosbarth C | 14.70% | 14.20% | 15.80% | 15.20% | 14.50% |





Mae Cod Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg. Mae gwaith ar droed ar draws Cymru ar hyn o bryd er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu cyson wrth archwilio cyflwr ffyrdd. Fel rhan o’r gwaith hwn, yr ydym yn y broses o adolygu a diweddaru ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd.

**I’r dyfodol byddwn yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd.**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith Cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).

Ein Gwasanaeth gwaith Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw.

## Goleuo Stryd





Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel ac i drigolion fedru defnyddio ein strydoedd yn ddiogel wedi iddi dywyllu. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol.

O ran yr amgylchedd leol, mae'n hynod bwysig bod **ein strydoedd yn lân a diogel** ac felly rhaid glanhau strydoedd yn rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throseddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym, ar gyfartaledd, yn cymryd 1.76 diwrnod i glirio eitemau tipio anghyfreithlon ar ôl cael gwybod amdanynt. Rydym yn defnyddio mesur o'r enw Mynegai Glendid i asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.

## Glanhau Strydoedd

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarets sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.





**Canran o'r graffiti a phosteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon a lanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbysu**

**100%**


**Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol**

**98.5%**



## Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. Mae angen cynyddu ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff i osgoi hyn.





Mae'r newidiadau i drefniadau casglu sbwriel pob tair wythnos a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynnydd mewn ailgylchu. Mae newidiadau i'r drefn o gasglu gwastraff gardd a newid cerbydau casglu i rai llai niweidiol i'r amgylchedd hefyd yn cael ei weithredu.



Mewn cyfnod o 3 mis rydym yn gwneud dros filiwn o gasgliadau gwastraff o dai Gwynedd. O'r casgliadau yma mae rhai yn cael eu methu, ac er bod y ffigwr yma yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r Adran erbyn hyn yn casglu gwybodaeth i ddeall pam fod hyn yn digwydd a sicrhau trefniadau newydd ar gyfer gwella perfformiad ac ymateb i broblemau perthnasol i gasgliadau gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i bwrpas lleihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu. Byddai'r Cyngor yn wynebu dirwyon sylweddol os nad fyddwn yn eu cyrraedd.

**Byddwn yn ceisio adeiladu ar y cynnydd mewn ailgylchu gan drigolion a busnesau er mwyn gwella ein perfformiad ailgylchu eto i'r dyfodol.**



Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu drwy waith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn gwella'r sefyllfa yma.  Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau "Kerbside", sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn symud yn ei flaen yn dda.  Partneriaeth sydd wedi ei sefydlu yma gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y Ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna'n cyflwyno syniadau i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal . Byddwn yn dysgu o'n profiadau o weithio gyda phrosiect Bangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

## Asedau Bwrdeistrefol



Rydym yn rheoli Amlosgfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y Sir.

**Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth profedigaeth sy'n briodol a pharchus.**


## Teledu Cylch Cyfyng

Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o **gamerâu Teledu Cylch Cyfyng** (CCTV) ym mannau poblog y sir sef Bangor, Caernarfon a Phwllheli. Mae'r gwasanaeth yn denu incwm gan eraill ond nid yw hyn yn ddigonol i gwrdd â chostau'r ddarpariaeth.



Y llynedd cafodd dros 3,000 o ddigwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol eu monitro.

**Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu'r gymuned.**




Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** yn y sir a rheoli cynllun ar gyfer darparu toiledau eraill (toiledau cymunedol) sydd ar agor i'r cyhoedd gan fusnesau a grwpiau yn y gymuned. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus ac ni roddwyd blaenoriaeth i'r ddarpariaeth gan drigolion yn yr ymarferiad Her Gwynedd. Gyda'r arian yn brin, rhaid oedd dod o hyd i ffyrdd eraill o'u darparu ac erbyn hyn yr ydym wedi partneriaethu gyda Cynghorau Tref a Chymuned y sir.



**Trwy bartneriaethu, byddwn yn ceisio cadw toiledau cyhoeddus drwy'r sir ar agor.**



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal **ymylon ffyrdd a thiroedd agored** er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Er ein bod yn torri gwair yn llai aml, rhaid gofalu am ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r Adran yn torri gwair i adrannau eraill o'r Cyngor, ac i sefydliadau eraill e.e. ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi preswyl a Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Byddwn yn hybu bywyd gwyllt gan gadw'n trefi a'n pentrefi yn daclus a diogel.**




Mae pob plentyn, rhiant a gofalwr plant yn gwerthfawrogi **meysydd chwarae** ac rydym yn cynnal 131 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



**Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.**

**Rhaglen Digwyddiadau 2017/18**

| | |
|---|---|
| 16 | Ymgyrch glanhau sbwriel / tipio slei bach gyda'r gymuned |
| 11 | Sioe deithiol amgylchedd glân mewn ysgolion |
| 8 | Prosiect atal baw cŵn yn y gymuned neu ysgolion |
| 22 | Ymweliad hybu ailgylchu mewn ysgolion |



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal **digwyddiadau addysgu** a chodi ymwybyddiaeth plant o ailgylchu gwastraff ac atal sbwriel, graffiti, gwaredu slei bach a phroblemau baw cŵn. Rydym hefyd yn trefnu ymgyrchoedd gwella'r amgylchedd leol gydag ysgolion a grwpiau cymunedol. Mae hwn yn waith pwysig os am newid ymddygiad er mwyn hyrwyddo amgylchedd lân a diogel heddiw ac i'r dyfodol.

**Byddwn yn parhau gyda'r rhaglen o ddigwyddiadau a'r ymgyrchoedd hyn drwy'r Sir.**

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.**

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Er mwyn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn well, mae angen i ni weithio mewn ffordd integredig. Rydym felly am ddatblygu'r ffordd yr ydym yn cynnig ac yn darparu gwasanaeth i deuluoedd drwy fabwysiadu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd.

## Y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

**Blaenoriaeth Gwella 3**

Pwrpas y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yw datblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ein hymyraethau ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau i leihau'r angen am ymyrraeth fwy dwys.

Mae gwaith wedi ei gynnal i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma yn gwella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd gyda'n partneriaid.

Byddwn yn ailedrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysáu yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn cytuno gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'n cymunedau a'r trydydd sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.

## Cefnogi Llesiant Pobl

## Blaenoriaeth Gwella 3

Yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 a gyhoeddwyd fis Mawrth 2018 roeddem wedi cynllunio prosiect **'Trechu Tlodi'** er mwyn rhoi cefnogaeth i bobl Gwynedd ymdopi efo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau (Credyd Cynhwysol yn bennaf) ac i roi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Llwyddodd y prosiect hwn i gynyddu lefelau incwm niferoedd o deuluoedd a bu ymgyrchoedd megis 'Call efo'r Geiniog' yn help i leddfu rhywfaint ar effaith symud i'r trefniadau budd-daliadau newydd.

Gyda Chredyd Cynhwysol bellach yn weithredol yng Ngwynedd ers Rhagfyr 2018 nid oes angen i ni roi gymaint o ffocws ar ymateb i'r newid hwnnw. Mae yna gymaint o waith sydd angen ei wneud yn y maes trechu tlodi er mwyn ceisio lleddfu effaith tlodi ar bobl yng Ngwynedd, felly o 2019 ymlaen byddwn yn taflu'r rhwyd yn ehangach ac yn canolbwyntio ar y maes ataliol a'r gefnogaeth y mae holl wasanaethau'r Cyngor yn eu cynnig i drigolion y sir er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Yn ystod cyfnod nesaf Cynllun y Cyngor byddwn yn dod i gytundeb ar y cyfeiriad, sgôp a rhaglen waith **'Cefnogi Llesiant Pobl'** er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu anghenion yn gynnar, cyd-gynllunio gwasanaethu ac ymyraethau priodol, ac ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau darparu presennol.

## Ymyrraeth Gynnar

Mae yna wasanaethau sefydledig yng Ngwynedd lle ceir tystiolaeth o lwyddiant ac rydym eisoes wedi datblygu sawl prosiect ataliol effeithiol. Mae'r Cyngor yn comisiynu dwy raglen wrthdlodi fawr a ariennir gan grant, sef Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd.

## Dechrau’n Deg

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed mewn ardaloedd penodol yng Ngwynedd drwy gynnig pecynnau rhiantu, cadw cyfrif, coginio, chwarae, gofal dydd a darpariaethau cylchoedd meithrin.

Yn ystod y flwyddyn 2017/18 deliodd panel cyfeiriadau Dechrau’n Deg gyda 437 o gyfeiriadau am wasanaeth. Mae hyn yn cymharu â 350 o gyfeiriadau yn ystod 2016/17. Dosbarthwyd nifer o’r pecynnau ymyrraeth i’r timau amlasiantaethol i’w gweithredu, boed yn staff iechyd, gofal plant, cefnogi teuluoedd neu ddatblygiad iaith gynnar.







## Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i’r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 649 o gyfeiriadau i’r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2017/18 ac mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i’w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

## Ardaloedd ‘Plant yn Gyntaf’

Rydym yn treialu ardaloedd ‘Plant yn Gyntaf’ yn ardal Maesgeirchen, Bangor, er mwyn helpu i greu gwasanaethau mwy integredig ac er mwyn lleihau'r nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a meithrin cryfder cymeriad ein plant a’n pobl ifanc. Megis cychwyn ar y gwaith yr ydym ond mae’r Cynllun Rhoi Plant yn Gyntaf yn flaenoriaeth i’r Adran.

## Gwasanaethau Ieuenctid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i’r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y sir. Ond, oherwydd y pwysau sydd ar adnoddau’r Cyngor a’r angen i foderneiddio i gyd-fynd â dyheadau pobl ifanc y Sir, rydym wedi newid sut mae’r Cyngor yn darparu ei wasanaeth ieuenctid. Rydym felly yn ystod 2017/18 wedi sefydlu gwasanaeth ieuenctid newydd ar draws Gwynedd.

Ein nod yw parhau i gefnogi pobl ifanc i ddysgu a datblygu sgiliau i ddibenion personol, emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.


## Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae’r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a’u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio’n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni’r cyfrifoldeb statudol yma. Mae’r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.


Mae’r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i’r honiadau yn unol â’r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae’r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a’u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a’u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i’w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i’w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol.





Rydym yn awyddus iawn i ddatblygu ein hymyraethau gyda theuluoedd a bydd y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a’r bwriad o weithio yn fwy integredig yn ein helpu ni i gynnig ymyrraeth yn gynt i deuluoedd i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion cyn i broblemau waethygu. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.

Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofalwyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.




Rôl y **Tîm Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Rydym yn asesu a chefnogi gofalwyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.


Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.




Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed i aros hyd nes eu bod nhw 'n barod i wneud hynny.

## Y Timau Arbenigol

Pwrpas y **Tîm Trothwy Gofal** yw lleihau anghenion drwy gynnig ymyrraeth a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, neu sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.



Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae’r tîm yn dîm amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda’r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a’u teuluoedd.

Mae’r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS**) yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rhieni a gofalwyr yn ffactor o risg i’r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae’r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae’r risg i blant yn uchel.




Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i’w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyraethau arbenigol ac yn gweithio gyda’r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu’r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i’w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm amlasiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda’r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

## Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu

Er mwyn rhoi sicrwydd i’r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu’r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.

Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.




Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrando ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.

# Adran Amgylchedd

# Adran Amgylchedd

Mae'r Adran yn rheoli trawstoriad eang o feysydd o fewn y tri Gwasanaeth penodol, sef:

- **Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**
- **Eiddo**
- **Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

## Gwasanaeth Cynllunio

**Pwrpas y Gwasanaeth Cynllunio yw hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).**

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:

Ers mabwysiadu'r **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** (Gwynedd ac Ynys Môn) mae'r gwaith o baratoi 8 (allan o gyfres o 17) o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn mynd rhagddo. Bydd y canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisïau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro'r Cynllun yn flynyddol hefyd yn cael eu paratoi er mwyn asesu os yw strategaeth a pholisïau'r Cynllun yn gweithio.

Rydym hefyd yn rhoi arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ac i sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn ystod 2017-18 derbyniwyd dros 2,300 o ymholiadau cynllunio cyffredinol neu ymholiadau cyn cyflwyno cais.



Canran ein cwsmeriaid oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn â lefel y gwasanaeth

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio** i ddatblygu tir ac yn ymdrin ag oddeutu 1,100 o geisiadau cynllunio'n flynyddol, gyda dros 85% o geisiadau'n derbyn caniatâd.

Mae ceisiadau'n cymryd 64 diwrnod i'w penderfynu ar gyfartaledd gydag oddeutu 82% yn cael eu penderfynu o fewn yr amser gofynnol.

Yn ddiweddar caniatawyd ddatblygiadau sylweddol sy'n cynnwys ysgolion newydd, is-orsaf drydan ac unedau dofednod. Caniatawyd hefyd nifer uchel iawn o geisiadau am ddatblygiadau sy'n rhoi cyfle i fusnesau presennol i ehangu ac i fusnesau newydd sefydlu, yn enwedig yn y maes atyniadau twristiaeth a busnesau cysylltiedig. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn rhan allweddol o broses ceisiadau Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Wylfa Newydd a phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol, yn ogystal â chynghori ar nifer o brosiectau mawr eraill sydd gan y Grid Cenedlaethol o fewn y sir.

Rydym yn cymryd **camau gorfodaeth** ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio gan ymdrin ag oddeutu 400 o achosion yn flynyddol. Fe ymchwiliwyd i 75% o'r achosion gorfodaeth o fewn 84 diwrnod ac mae nifer o rybuddion gorfodaeth wedi eu cyflwyno.

Mae'r Adran yn gyfrifol am fonitro gwariant cyfraniadau ariannol Cynllunio [cytundeb 106] o fewn ardal yr ACLl sydd yn gallu bod yn swm sylweddol.

Mae'r Adran hefyd yn ymgymryd â rhaglen flynyddol o waith rhagweithiol yn unol ag amcanion y Strategaeth Gorfodaeth, sydd yn cynnwys monitro'n rhagweithiol, yn ogystal â gweinyddu, cynnal, diweddaru ac adolygu cofrestr gorchmynion diogelu coed y Cyngor.

## Gwarchod y Cyhoedd


**Pwrpas y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yw gwarchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd - megis ansawdd aer, sŵn, y gadwyn fwyd ac alcohol yn ogystal â busnesau a masnachwyr ffug sy'n anfwriadol neu'n fwriadol yn torri safonau derbyniol a nodir mewn deddfwriaeth.**

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:-

### Rheolaeth Llygredd

Rydym yn sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol drwy ymateb ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.

Rydym hefyd yn asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat ac ansawdd dŵr ymdrochi a gorfodi gwelliannau fel bo angen - 730 sampl dŵr yfed a 35 sampl dŵr ymdrochi dros y flwyddyn ddiwethaf.






Rydym yn archwilio a monitro **prosesau diwydiannol** ar 47 safle a rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).

Rydym hefyd yn **claddu'r meirwon** lle nad oes teulu - gyda 5 o achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Trwyddedu

Rydym yn trwyddedu'r meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol.

- Trwyddedau alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr tacsis.
- Safleoedd carafanau, a thrwyddedu delwyr metel sgrap.
- Sectorau o fusnes all fod yn beryglus.

**Gorfodi Trwyddedau**

1,000 Eiddo Alcohol

80 Eiddo Gamblo

35 Trwyddedau Anifeiliaid

400 Cerbydau Tacsi

570 Gyrwyr Tacsi

400 Safleoedd Carafanau

20 Delwyr Metel Sgrap

## Lles

Rydym yn sicrhau fod busnesau yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch yn y gweithle drwy ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau rheolaidd a chynnal ymgyrchoedd addysgol.

Rydym yn gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol.

Rydym hefyd yn ymchwilio i ddamweiniau ac achosion o glefyd heintus yn brydlon fel bod unrhyw risgiau pellach i unigolion yn cael eu dileu.

**Ceisiadau am Wasanaeth**

1,040 Diogelwch Bwyd

205 Iechyd a Diogelwch

226 Afiechydon Heintus

**Monitro**

Dros 2,000 o fusnesau bwyd




95% o fusnesau bwyd â sgôr 4 neu 5

333 Sampl bwyd

82 Damweiniau

Dros 90 Ymweliad Addysgol

Ymweld â 2,000+ o fusnesau yn flynyddol

## Safonau Masnach

Rydym yn sicrhau fod busnesau a masnachwyr yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion diogelwch cynnyrch (gan gynnwys nwyddau a chyfyngiad oed), masnach deg, gwarchodaeth defnyddwyr, iechyd a lles anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid.

Rydym yn gwneud hyn drwy gyfuniad o ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau rheolaidd, cynnal ymgyrchoedd addysgol a thargedu masnachwyr problemus.

**Monitro**

Dros 8,000 o fasnachwyr

Dros 2,000 ffermydd

30 Busnes i gadw tân gwyllt

40 Busnes i gadw petrolewm

**Ceisiadau am Wasanaeth**

1,410 Cwynion am fasnachwyr

105 Cais am gyngor gan fusnesau

460 Cais Iechyd Anifeiliaid


## Gwasanaeth Eiddo

**Pwrpas y Gwasanaeth Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ac i reoli'r asedau eiddo hynny.**

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae sawl elfen i'r gwaith:-

### Diogelwch Eiddo a Chynnal a Chadw

Rydym yn sicrhau fod ein **adeiladau yn ddiogel ac mewn cyflwr da** i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r llu o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol.





Ysgol Newydd Bro Llifon


### Datblygu Eiddo

Pwrpas yr Uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.

Yn ystod 2017-18, roedd 97% o'n cwsmeriaid yn hapus gyda'r gwaith a ddarparwyd gan y Tîm Datblygu Eiddo.

## Stadau a Chyfleusterau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw.







## Gwasanaeth Swyddfa

Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu a glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr.

Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer adeiladau eraill a ddefnyddir i gynnal gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i gwmnïau allanol megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.



## Uned Cadwraeth Ynni




Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**.

Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu arbedion refeniw blynyddol o dros £900,000 i'r Cyngor.

Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic.



## Rheoli a Gorfodaeth Parcio

Mae'r tîm parcio yn gyfrifol am **reoli dros 100 o feysydd parcio** ledled y sir ac yn gyfrifol am orfodaeth parcio ar ein strydoedd ac yn ein meysydd parcio. Nod y tîm yw defnyddio pwerau gorfodaeth yn rhesymol a theg er mwyn sicrhau parcio a llif traffig diogel i'r cyhoedd.

Mae pryder yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. Roedd gan drigolion ardal Penllyn bryder am y diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol Y Bala, sydd bellach wedi ei ddatrys. Ni fu i ni lwyddo i ymateb i'r pryderon hyn yn ardaloedd Caernarfon a Dyffryn Ogwen yn 2018, a byddwn yn ymchwilio ac yn edrych ar opsiynau er mwyn cyfarch y broblem.

### Rheoli Pla

Rydym yn cynnig gwasanaeth **rheoli a difa pob math o bla** drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau. Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.



## Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad


Mae pedwar maes gwaith o fewn y Gwasanaeth:

- Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd
- Cludiant Integredig
- Diogelwch y Ffyrdd
- Cefn Gwlad


### Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd

Ein pwrpas yw galluogi'r cyhoedd ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwystr.

Rydym yn gwneud hyn drwy asesu safleoedd ar y rhwydwaith priffyrdd er mwyn adnabod unrhyw beryglon posibl a gweithredu datrysiadau os oes angen. Gall y datrysiadau fod ar ffurf creu gorchmynion traffig (cyfyngiadau cyflymder neu barcio) neu ymgymryd â chynlluniau arwyddo a marcio ffyrdd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am sefyllfaoedd peryglus.




Rydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod gweithiau arfaethedig gan ddatblygwyr a allai effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd yn cael eu gwneud yn ddiogel ac yn unol â'r safonau cywir. Mae hyn yn golygu rhoi cyngor i ddatblygwyr a rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio a dderbynnir gan y Cyngor.




Rydym hefyd yn rheoli prosiectau gwella ffyrdd amrywiol ledled y sir.

Rydym bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu ein cynlluniau trafnidiaeth a diogelwch o ffynonellau allanol ac yn aml yn llwyddiannus yn denu arian grant o wahanol ffynonellau ar eu cyfer.

## Diogelwch y Ffyrdd


Rydym yn ceisio **lleihau anafiadau a damweiniau** ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau priodol (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) gan gynnwys mesurau peirianyddol, rhaglenni addysgol, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a gorfodaeth.

Codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes sy'n gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i rai o'r ysgolion yng Nghaernarfon. Rydym eisoes wedi ymweld â'r ysgolion i drafod eu pryderon gyda nhw ac rydym ar hyn o bryd yn asesu'r safleoedd er mwyn ceisio dod o hyd i wahanol opsiynau i helpu i leihau'r risgiau i ddefnyddwyr.

## Gwaith Stryd

Rydym hefyd yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar y rhwydwaith briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol (e.e. Dŵr Cymru, BT) neu eu contractwyr. Mae hyn yn golygu prosesu ceisiadau am e.e. tyllu ffyrdd i drwsio cyfarpar a chau ffyrdd i hwyluso ymgymryd â gwaith cynnal a chadw.

Rydym hefyd yn **trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau** ar ein ffyrdd yn ogystal â gorfodi perchnogion eiddo i dorri coed, symud rhwystrau oddi ar y ffordd ac yn y blaen.




## Cludiant Integredig

Ein pwrpas yw **darparu cludiant diogel o ansawdd** sy'n gost-effeithiol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ac addysgu grwpiau penodol ar sut i ymdopi â pheryglon ar ein ffyrdd.


Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau rhwydwaith o gludiant cyhoeddus.

## Cludiant Cyhoeddus

Mae dros hanner y **llwybrau bysiau** o fewn Gwynedd yn derbyn cymorth ariannol i'w rhedeg oherwydd nad ydynt yn fasnachol-hyfyw. I hwyluso hyn, rydym yn paratoi contractau cludiant cyhoeddus yn ogystal â pharatoi a chreu amserlenni gweithredu ar gyfer y gwahanol lwybrau.

Rydym hefyd yn gyfrifol am drefnu **contractau cludiant addysg** (gan gynnwys cynllun prynu seddau) er mwyn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys.

Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant confensiynol ar gael, neu ar gyfer ein trigolion sy'n methu neu'n ei chael hi'n anodd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol, rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer **cludiant cymunedol**.




**I'r dyfodol fe fyddwn yn ymgynghori gydag ein cymunedau i ddeall sut y gallwn ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym i wasanaethu ein trigolion yn well. Fe fyddwn yn ogystal yn ceisio arloesi i gwrdd â'r gofyn yn y modd fwyaf cost effeithiol posib tra yn sicrhau bod gwasanaethau yn ddibynadwy ac o ansawdd.**

## Cefn Gwlad

Rydym yn **hwyluso a chynnal hawliau mynediad** y cyhoedd i gefn gwlad a'r arfordir, gwarchod bioamrywiaeth a chynefinoedd ar dir a môr, ynghyd â diogelu safon tirlun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn.

## Bioamrywiaeth



Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein bioamrywiaeth yng Ngwynedd. Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio a datblygiadau ac wedi cynnal 976 o ymgynghoriadau yn ystod 2017/18.

Mae'r Adran yn gyfrifol am gyd-gordio'r gwaith o reoli safle Ewropeaidd dynodedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, a rheoli a gweithredu prosiectau amgylcheddol megis Prosiect Ecosystemau Morol.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal gweithgareddau gyda grwpiau lleol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ein bioamrywiaeth.

## Mynediad i Gefn Gwlad

Mae **rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd** oddeutu 3,800km o hyd, ac rydym yn rhoi blaenoriaeth i gynnal y llwybrau hynny sydd wedi eu hadnabod gan gymunedau fel y rhai sy'n bwysig iddynt.

Rydym hefyd yn datblygu a chynnal y **llwybr arfordir cenedlaethol** sydd oddeutu 300km o hyd yng Ngwynedd.

Mae cynllun eisoes wedi'i wireddu ger Tŷ Moelwyn ym Mhorthmadog sy'n cynorthwyo i wella'r ddarpariaeth Llwybr Arfordir yn y dref. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i wella cyflwr llwybrau eraill yn yr ardal yn y man. Mae galw wedi bod yn lleol i gwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi ac mae eisoes yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Mae cynnydd wedi'i wneud ar y cynllun yma a byddwn yn cyflwyno cais i gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru maes o law er mwyn datblygu'r cynllun ymhellach. Mae galw hefyd i adeiladu llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog a fyddai'n galluogi i ddefnyddwyr gael mynediad rhwydd ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Byddwn hefyd yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r cynllun ymhellach.

Rydym yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddaru'r map diffiniol sydd yn dangos **rhwydwaith hawliau tramwy'r sir**.

Rydym hefyd wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sydd yn gosod fframwaith ar gyfer gwella'r rhwydwaith ac yn rheoli tiroedd sydd yn cynnwys 6 gwarchodfa natur a thiroedd eraill.

Mae'r Adran yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn** (AHNE) yn unol â phrotocol. Mae Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu gan y Cyngor a sefydliadau eraill.

**I'r dyfodol, ein bwriad yw sicrhau bod ein rhwydwaith beicio yn addas i'w bwrpas ac, yn hynny o beth, ddatrys agweddau sydd yn rhwystro eu llawn defnydd. Byddwn yn ogystal yn manteisio ar gyfleoedd grantiau i ehangu'r rhwydwaith "Teithio Llesol" sydd yn cynnig buddion iechyd ac amgylcheddol.**

# Adran Economi a Chymuned

# Adran Economi a Chymuned

**Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.**

## Datblygu Economi Gwynedd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

**Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd.**

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi i fusnesau dyfu a sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2019/20:

### Cefnogi Busnes

**394** o fusnesau wedi derbyn cymorth yn 2017/18

Mae 15,100 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau Gwynedd i dendro'n llwyddiannus am waith a chadw'r budd yn lleol o gytundebau yn y sector cyhoeddus a phreifat a hynny drwy gydweithio gyda Thîm Caffael Cyngor Gwynedd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Adran hefyd yn darparu 87 o unedau gwaith ar hyd a lled y sir i alluogi i fusnesau fod yn gystadleuol a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyflwyno trefniadau rheoli newydd ar gyfer yr unedau yma.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth busnes er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid.

Ein blaenoriaeth gwella yn 2019/20 fydd:

**Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu** **Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael.

Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

## Rhaglenni Datblygu Economaidd

Yn ogystal â chefnogi busnesau yn uniongyrchol, mae'r Adran yn cydweithio gyda phartneriaid ar draws rhanbarth gogledd Cymru er mwyn targedu adnoddau i fuddsoddi mewn pecyn o brosiectau isadeiledd a sgiliau i fusnesau ffynnu i'r dyfodol.

**£320 miliwn**
o fuddsoddiad gan brosiectau yn yr economi ers 2000

Ein blaenoriaethau gwella yn 2019/20 fydd:

**Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru** **Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn arwain ar y weledigaeth twf. Mae'r fargen twf wedi ei seilio ar 7 rhaglen sef Rhaglen Ynni Carbon Isel; Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch; Diwydiannau ar y Tir a Thwristiaeth; Rhaglen Tir ac Eiddo; Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth; Rhaglen Digidol; Rhaglen Trafnidiaeth Strategol.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyfrannu tuag at waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn elwa o'r buddsoddiadau a ddaw drwy'r Weledigaeth Twf.

## Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o swyddi sy'n talu'n well.

Ymhlith uchafbwyntiau 2018/19 oedd sicrhau £7.5m o arian Ewropeaidd ar gyfer datblygu is-adeiledd Canolfan Awyrofod Llanbedr i ddenu busnesau i'r safle, a derbyniwyd hwb sylweddol i broffil safle Atomfa Trawsfynydd pan lansiwyd y ddêl sector niwclear gan Lywodraeth Prydain yno.

Byddwn yn parhau i dargedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Byddwn hefyd yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai.

## Arloesi Gwynedd Wledig

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu'r cymunedau gwledig.

Yn ystod 2018/19 fe wnaethom sicrhau arian i gefnogi 10 o drefi a phentrefi gwledig y sir i ddatblygu gwasanaeth WiFi i'r cyhoedd. Cafodd ystod o syniadau eu treialu drwy Arloesi Gwynedd Wledig, gan gynnwys lansio 'maes chwarae digidol' yng Nglynllifon, sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi gyda'r Rhyngrwyd Pethe i ymateb i heriau ardaloedd gwledig.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd â chefnogi buddsoddiad yn isadeiledd ddigidol ein cymunedau gwledig trwy Gwynedd Ddigidol gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Rydym yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon fydd yn arwain ar y gwaith.

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio gyda Siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

## Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Mae cyfle yma i ni ddefnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr.

Yn ystod 2018-19 cafodd yr ardaloedd llechi eu dewis gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU i UNESCO ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Hefyd, sicrhawyd dros £60 mil o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

Rydym yn edrych i wireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg cymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid, ynghyd â pharhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.

## Hybu Canol Tref

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod ffynnu gan gynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Byddwn yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Cymreig.

## Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith

**Blaenoriaeth Gwella 3**

Mae ystod o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth. Gall bod y tu allan i'r byd gwaith arwain at leihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Yn 2018/19 sicrhawyd arian cronfa Cymunedau am Waith a mwy i'r Sir, fydd yn cyfarch unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol gan gynnig cymorth i unigolion sydd allan o waith neu wedi ei tangyflogi.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.

## Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o bron i £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Rydym yn helpu'r diwydiant i ddenu pobl drwy'r flwyddyn sy'n debygol o wario mwy yn lleol, megis ymwelwyr sy'n mwynhau'r awyr agored ac ymwelwyr sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant arbennig Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn yn fwy effeithlon rydym yn ailddatblygu ein platfform marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddigidol ac yn cydweithio gyda phartneriaid i adnabod blaenoriaethau i gefnogi prif gyrchfannau twristiaeth Gwynedd a'r sector yn ehangach.

**37,439**
o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol Eryri, Mynyddoedd a Môr

Rydym hefyd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i greu bwrlwm mewn cymunedau ar draws y sir.

### Ein blaenoriaethau gwella yn 2019/20 fydd:

### Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Trwy gynnal digwyddiadau mae modd codi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld ac yn lleoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.3m yn 2017/18.

Rydym yn awyddus i barhau â hyn yn 2019/20 a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r sir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

### Elwa o Dwristiaeth

**Blaenoriaeth Gwella 1**

Er mai Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym yn edrych ar gydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

## Morwrol a Pharciau Gwledig

**2700**
o gychod yn defnyddio ein harborau yn flynyddol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r Adran yn ceisio sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, ein harborau, ein marinas ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 700 o gychod. Mae'r Adran hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Diweddaru Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- Gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Fictoria
- Datblygu opsiynau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol
- Datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Ein blaenoriaethau lleol fydd:

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn Haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu ailddefnyddio'r safleoedd.

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy'r ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd.

Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.

Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith, a nodir uchod. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.

# Cefnogi Cymunedau Cryf

Rydym yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i rymuso cymunedau a galluogi i bobl gyflawni eu llawn botensial. Rydym hefyd yn hyrwyddo mynediad, yn gwarchod ac yn dathlu ein diwylliant a'n treftadaeth.

**Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd fydd yn helpu i greu cymunedau gwydn; cefnogi cynhwysiad pobl yn eu cymunedau a mynd i'r afael â thlodi.**

Yr ydym yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i drigolion ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu llawn botensial. Er mwyn creu cymunedau atyniadol, mae'r Adran hefyd yn hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau ac yn gwarchod a dathlu ein diwylliant a'n treftadaeth.

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2019/20:

## Cefnogi Cymunedau

Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol.

**72** o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/diogelu mynediad at wasanaeth

Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw penodol i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Ail lansio gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar draws Gwynedd
- Mesur maint a natur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol

## Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu menthyg llyfrau, e-lyfrau, llyfrau llafar neu DVD o'u dewis. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu llyfrgell deithiol sy'n ymweld â 129 o arosfannau mewn trefi a phentrefi ac yn ymweld â 87 cartref unigolion, (gwasanaeth cludo i'r cartref i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi). Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu Gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob ysgol Gynradd, Arbennig a Chanolfannau iaith ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed. Benthycwyd 491,275 o lyfrau gan bobl Gwynedd yn 2017-18.

**30,283** o bobol Gwynedd yn aelodau o Lyfrgell

Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na dim ond benthyg llyfrau. Maent yn lefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o weithgareddau - darllen a dysgu, mynediad at wybodaeth am faterion megis iechyd a lles, chwilio am waith, gwasanaethau lleol, yn ogystal â Gwynedd Ni sydd yn cynnwys gwybodaeth benodol i deuluoedd am wasanaethau a gweithgareddau i blant. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn dod i ddefnyddio un o'r 110 o gyfrifiaduron, neu'r Wi-Fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Paratoi achos busnes am adnoddau i uwchraddio cyfleusterau Llyfrgell Pwllheli
- Gwreiddio trefniadau hunan wasanaeth newydd ymhob llyfrgell ar draws y sir
- Parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth newydd
- Ystyried rôl Llyfrgelloedd o fewn cymunedau ar gyfer y dyfodol

## Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r Gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiel ac Amgueddfa Lloyd George.



**57,312**
o ymwelwyr ag amgueddfa Storiel yn ystod 2017/18

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.

Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi rhaglenni celfyddydol amrywiol er mwyn sicrhau fod y celfyddydau'n fyw yn ein cymunedau a bod mynediad at y celfyddydau yn ein hardaloedd gwledig.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- Sicrhau llwyddiant cynllun Storiel a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- Gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau
- Cefnogi Ysgol Godre'r Berwyn i sefydlu cyfleusterau celfyddydol cymunedol newydd
- Datblygu cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau Neuadd Dwyfor ac adnabod modelau darparu cynaliadwy i'r dyfodol.

## Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad atynt. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.

**8,267**

o ddefnyddwyr yn defnyddio'r archifdai

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chyrsiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth
- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws Gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth.

Ein blaenoriaethau lleol fydd:

Yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg y cynghorwyr lleol pan gynhaliwyd sesiwn ymgynghori â hwy ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno, a gwnaeth y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gyni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

## Gwella Iechyd Trigolion Gwynedd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egnïol a byw eu bywydau yn iach.

**Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ond gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.**

Dyma un o brif amcanion yr Adran, sef cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi trigolion Gwynedd i fod yn egnïol a byw eu bywydau yn iach.

Dyma fraslun o waith yr Adran:

## Rhaglenni Byw'n Iach

### Tîm Chwaraeon am Oes

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal ystod o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored er mwyn ysbrydoli plant a phobl ifanc i gymryd rhan a mwynhau chwaraeon.

**49%** o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos

Mae'r canran o blant Gwynedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos wedi cynyddu o 43% yn 2013 i 49% yn 2018, ac rydym yn anelu at gynyddu'r ffigwr yn uwch yn 2020. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd cenedlaethol am drefniadau ariannu rhaglenni chwaraeon i'r dyfodol yn gosod her i gynnal rhai gweithgareddau. Er mwyn cael yr effaith orau gyda'r adnoddau sydd ar gael, rydym yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu rhaglenni i ysbrydoli pobl ifanc i fod yn egnïol yn y dyfodol.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru
- Cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau sy'n ymateb i'r galw a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sir.

### Tîm Cyfeirio i Ymarfer

**67%** wedi gwella eu sgôr ansawdd bywyd

Mae'r Adran yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd drwy'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer. Dyma wasanaeth arbenigol gydag ystod o weithgareddau i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Ond mae bygythiad i gyllideb y gwasanaeth gan ei bod yn ddibynnol iawn ar grantiau a bydd rhaid edrych ar fodelau gwahanol i'w gynnal i'r dyfodol.

Yn 2019/20 byddwn yn:

- Ymateb yn briodol i'r lleihad yn y buddsoddiad ariannol er mwyn ceisio cynnal gwasanaeth sirol.
- Cytundebu gyda chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth ar ran y Cyngor i'r dyfodol.

## Canolfannau Byw'n Iach

Mae gan Cyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol mewn lleoliadau diogel.

Dangoswyd drwy arolwg bodlonrwydd diweddar fod 90% o'n defnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r hyn a gynigir ac mae'r adborth yma wedi bod yn allweddol er mwyn galluogi'r Cyngor i gynllunio gwelliannau i'r dyfodol.



**81%** o blant yn gallu nofio yn 11 oed yn 2017/18

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu Canolfannau Byw'n Iach i'r dyfodol, ond er mwyn cyflawni arbedion ariannol, wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Bydd yr Adran yn gosod contract i Gwmni Byw'n Iach i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a bydd holl staff y canolfannau wedi trosglwyddo i'r Cwmni erbyn y dyddiad hwn.

Yn 2019/20 ein blaenoriaeth fydd:

- Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i sefydlu a darparu'r gwasanaeth i drigolion Gwynedd yn unol â'r cytundeb.
- Sefydlu trefniadau i fonitro perfformiad Cwmni Byw'n Iach yn unol â'r cytundeb.
- Sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn y cyfleusterau yn unol â'r cytundeb

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

**Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cyngor yn y meysydd Risg Llifogydd a Rheolaeth Adeiladu. Mae gweddill gwaith yr Adran yn ymwneud â darparu gwasanaeth ymgynghorol masnachol i gleientiaid mewnol ac allanol, gan arbenigo mewn prosiectau peirianyddol neu adeiladu.**

## Risg Llifogydd



**Rydym yn gwireddu ein dyletswyddau statudol fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol (AALL) dros Wynedd, gan ddilyn yr egwyddor o edrych yn hirdymor i leihau risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.**

**Yn y dyfodol, byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y 3 maes critigol canlynol:**

### Cynllunio ar gyfer Buddsoddi

Ein dyletswydd o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (RRLD) yw ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd - ers i'r Ddeddf ddod i rym yn 2010 mae Cyngor Gwynedd wedi ymchwilio i 42 digwyddiad o lifogydd mewnol ar gyfartaledd pob flwyddyn.

Rydym yn cadw cronfa ddata o ddiffygion, ac unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â llifogydd sy'n cael eu codi gan drigolion Gwynedd, lle'r ydym yn anelu at gynorthwyo. Ein nod yw ymateb i bryderon yn yr amserlen fyrraf posibl.

Mae casglu'r wybodaeth hon yn ein galluogi i greu darlun o berygl llifogydd lleol ar draws Gwynedd, sy'n sail i'n cynllun rheoli perygl llifogydd. Mae ceisiadau grant yn cael eu gwneud wedyn i Lywodraeth Cymru i ymchwilio a rheoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd lle mae'r pryder mwyaf.

Yn yr un modd, rydym yn buddsoddi yn yr ardaloedd arfordirol sydd fwyaf o dan fygythiad o erydiad arfordirol er mwyn ceisio rheoli'r risgiau sy'n eu hwynebu. Mae'r buddsoddiad presennol yn cynnwys amddiffyn yr arfordir yn Borth y Gest, gwaith amddiffyn afon yn Llanberis, a bydd y cynlluniau hyn yn lleihau'r risg i oddeutu 150 o bobl.

### Cynnal a Chadw Asedau

Rydym yn gyfrifol am gynnal 129 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 19km o amddiffynfeydd arfordirol, a hefyd 40 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin.



19 km

o amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal

Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cannoedd o gartrefi, busnesau a seilwaith critigol mewn cymunedau ledled Gwynedd. Bwriad y gwaith hwn yw gallu rhoi darlun ar unrhyw adeg o ble yng Ngwynedd sy'n wynebu'r risg mwyaf. Rydym hefyd yn cynnal rhaglen fonitro arfordirol i nodi newidiadau i'r arfordir o ganlyniad i newid hinsawdd, sef newidiadau allai effeithio ar ein

cymunedau arfordirol yn y blynyddoedd i ddod. Rhoddir sgôr amod rhwng 1 a 5 i bob ased, a gosodir targed ar gyfer pob ased, ein nod yw bod pob ased yng Ngwynedd yn cyrraedd ei sgôr cyflwr targed.

### Rheoleiddio


Fel AALL mae gan Gyngor Gwynedd rôl reoleiddiol i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn rheoli'r risg o ddŵr wyneb. Mae hon yn ddyletswydd statudol newydd a fydd yn cael ei datblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bydd mabwysiadu a chymeradwyo ceisiadau yn brydlon yn cynorthwyo'r ymgeisydd a'r broses gynllunio.
- Sicrhau bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud o fewn cwrs dŵr cyffredin yn cael yr effaith leiaf posib ar berygl llifogydd a'r amgylchedd. Rydym yn ymateb i 40 cais adeiladu y flwyddyn ar gyfartaledd, a'r amser ymateb statudol yw 28 diwrnod ond bwriedir cymeradwyo cyn gynted ag y bo modd.

## Uned Rheolaeth Adeiladu

**Rydym yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf.**

Mae'n rhaid i waith adeiladu gael ei gyflawni yn unol â gofynion penodol Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.




Rydym yn anelu i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol drwy ddarparu gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan gynnig cyngor, cymorth technegol, asesu cynlluniau ac archwiliadau safle i bob math o waith adeiladu.

Yn nhermau adeiladau peryglus, rydym yn cynnig gwasanaeth 24 awr i sicrhau bod iechyd a diogelwch trigolion Gwynedd yn cael ei ddiogelu rhag adeiladau a strwythurau peryglus.

Ar gyfer ceisiadau Cynllun Llawn, mae'r gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod gwaith, gyda'r penderfyniad yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Er mwyn cymeradwyo'r cais (penderfyniad cyntaf), bydd y swyddogion Rheolaeth Adeiladu yn cynnig cydweithio gydag adeiladwyr a phenseiri er mwyn gwella safon y cais.

I'r dyfodol byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y meysydd canlynol:

- Holiadur arolwg boddhad cwsmeriaid
- Niferoedd o ddiwrnodau i archwilio cynlluniau llawn
- Canran o geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd/gymeradwyo'n amodol (Penderfyniad cyntaf)
- Adeiladu peryglus - amser i sicrhau bod yr adeilad/safle yn ddiogel

# Gwasanaethau Ymgynghoriaeth



**Rydym yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru, gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir, a chyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.**

Mae costau rhedeg y Gwasanaeth Ymgynghorol yn cael eu hennill drwy ffioedd cleientiaid sydd yn ei dro yn cyfrannu tuag at weddill costau Cyngor Gwynedd, drwy gyfrannu at orbenion a thargedau ariannol.

## Strwythur Gweithredol Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn delio â phob darn o waith fel prosiect unigol, pa bynnag Uned mae'r gwaith wedi deillio ohoni. Golyga hyn y gall unigolion o unrhyw Uned ar draws y sefydliad weithredu fel arweinydd neu aelodau o'r tîm prosiect i sicrhau Llwyddiant.

Drwy'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth rydym yn creu swyddi proffesiynol lleol na fyddant yn y sir fel arall. Mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Ymgynghorol weithredu drwy ddulliau arloesol a chynaliadwy, yn ogystal â bod yn gystadleuol yn ein pris.

**Perfformiad Gyllidol**

| | *2013-14* | *2014-15* | *2015-16* | *2016-17* | *2017-18* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Trosiant* | £6.1m | £5.8m | £5.5m | £5.5m | £5.3m |
| *Elw/Colled* | +£120K | +£21K | -£34K | +£96.5K | +£81K |

## Unedau Priffyrdd, Adeiladwaith ac Adeiladu

Rydym yn gwneud gwaith rheoli prosiectau sydd yn cynnwys dylunio, anghenion amgylcheddol a daearyddol.

## Uned Dŵr ac Amgylchedd

Mae'r Uned yn gweithio ar ddylunio strwythurau arfordirol a chynlluniau atal llifogydd.

Gall Cyngor Gwynedd ddenu arian ar gyfer y gwaith yma drwy ennill grantiau sylweddol.

## Uned Fusnes

Rydym yn gwasanaethu a chefnogi holl unedau'r Adran, ac yn gweithredu'r prosesau angenrheidiol i gynnal y busnes.

**I'r dyfodol byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach yn y meysydd yma i:**

- barhau i gystadlu yn ystod 2019/20 am waith dylunio ffyrdd, pontydd a phrosiectau er mwyn cefnogi budd ariannol y Cyngor, a sicrhau'r elw mwyaf posib o £107,000.
- Gynorthwyo AECOM i gyflwyno'r gwaith uwchraddio'r A5025, o'r Fali i Wylfa newydd.
- Gyflogi chwe aelod newydd o staff.

# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

**Mae'r Adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.**

## Cyswllt Cwsmer

Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

**Ateb galwadau ffôn, ar gyfartaledd o fewn 40 eiliad**

Derbynnir tua 200,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- darparu hunanwasanaeth ar-lein ar gyfer nifer cynyddol o ymholiadau a cheisiadau am wasanaeth. Rydym fel Cyngor am i bobl Gwynedd fedru cysylltu i gael gwasanaeth neu wybodaeth ar adegau sy'n gyfleus iddynt
- adolygu trefniadau Bathodynnau Glas a Gwasanaeth Switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid
- cyflwyno trefniadau cyswllt amgen e.e. "web-chat".


## Cofrestru

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y Sir gan gynnwys Ysbyty Gwynedd.

Cofrestrwyd dros 5,600 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau am dystysgrifau.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cynnal asesiadau manwl o waith Cofrestryddion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar bob achlysur
- adolygu trefniadau gwaith yn y maes Priodasau, er mwyn datblygu'n gwasanaeth i fod ar gael drwy hunan-wasanaeth
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.



## Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgordio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau'r gyfundrefn cyfathrebu mewnol ymhellach gan ganolbwyntio ar sefydlu trefn i adnabod a chyfathrebu nifer cyfyngedig o brif negeseuon, a mesur y graddau mae'r negeseuon yma yn treiddio ymysg y gweithlu
- darparu mwy o wasanaethau fydd ar gael 24 awr y dydd ar wefan y Cyngor
- cwblhau'r gwaith o gryfhau "brand gweledol" fel bod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor.

Dilynwyr Gwefannau Cymdeithasol y Cyngor

14,454 ↑ 609 cynnydd 2018

10,493 ↑ 2,057 cynnydd 2018

## Cefnogi Busnes y Cyngor

FFORDD GWYNEDD

Mae'r Gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi cynllun busnes, cynllun cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â chynghori a chefnogi gwaith prosiect, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn:


- gweithredu amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol a datblygu a chyhoeddi'r cynllun newydd ar gyfer cyfnod 2020-24.
- datblygu a chyflwyno cyfres o weithdai Rheolaeth Prosiect i staff y Cyngor er mwyn eu cyflwyno i brif egwyddorion rheolaeth prosiect.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn:

*Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn*



Mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydweithio'n agos ar ffurf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes.




Cyhoeddodd y Bwrdd Gynllun Llesiant ym mis Mehefin 2018, gyda'r nod o sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni newidiadau cadarnhaol i gymunedau'r ddwy sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cadarnhau trefniadau i gyflawni a monitro'r amcanion llesiant a'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant.

*Diogelwch Cymunedol*

Byddwn yn arwain ar waith y ddau Gyngor ynghyd â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu cynllun newydd er mwyn ymateb i flaenoriaethau adnabuwyd ym maes trosedd ac anhrefn yn y ddwy sir.

## Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a Saesneg, ond iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ac felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy ein holl wasanaethau. Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa ble mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:




- Gweithredu ar raglen waith gychwynnol Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 gan ddatblygu prosiectau cydweithio ar draws y meysydd dan sylw
- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasu naturiol yng nghymunedau'r sir drwy waith y fenter iaith, Hunaniaith.

## Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

**Blaenoriaeth Gwella 5**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun.

Fe fyddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau, yn enwedig rhai rheng flaen, i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol ac achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

## Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**Blaenoriaeth Gwella 5**

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Yn dilyn cymeradwyo rhaglen waith yn y maes hwn, ac fel rhan o Is-grŵp Cymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn parhau i yrru ar brosiectau fydd yn ceisio gosod safon ddisgwyliedig a chyson ar draws y cyrff cyhoeddus – gyda'r nod o annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau.

## Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

**Blaenoriaeth Gwella 5**

Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth.

Cytuno a chydlynu rhaglen waith bwrpasol.


## Ymchwil a Gwybodaeth

Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Rydym ni yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.


I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu sut mae staff a rheolwyr ar draws y Cyngor yn gallu cael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth, a gwella ffurf a chynnwys yr hyn sydd ar gael iddynt a pa mor hawdd yw cael ato (e.e. drwy'r mewnrwyd)
- cyfrannu at ddatblygiad systemau adnoddau dynol y Cyngor, yn benodol i wella'r math o wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr yn gallu cael atynt yn hawdd ynglŷn â'u gweithlu. Bydd hyn yn allweddol i lwyddiant datblygiadau megis cynllunio'r gweithlu a rheoli talent o fewn y Cyngor, ac yn ein galluogi ni fel Gwasanaeth i ganolbwyntio ar waith mwy arbenigol fydd yn rhoi atebion busnes ym maes gwybodaeth adnoddau dynol
- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith newydd sydd wedi'u cyflwyno ar draws y Cyngor i gydymffurfio â deddfwriaeth gwybodaeth newydd (GDPR) erbyn 2018, yn gwreiddio ac yn gadarn
- adolygu trefniadau Canolfan Gofnodion y Cyngor i weld sut gall trefniadau weithio'n well heb effeithio ar yr adnodd sydd ar gael i flaenoriaethau eraill y Gwasanaeth



## Caffael

Mae'r Cyngor yn gwario dros £97m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau refeniw. Yn 2017/18, roedd pryniant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth â £60miliwn i'r economi leol.




I'r dyfodol byddwn yn:

- **Cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd** - byddwn yn asesu'r trefniadau rheolaeth categori i sicrhau bod y trefniadau yn cael eu gweithredu a bod y teclynnau a'r trefniadau yn addas i'w pwrpas. Byddwn hefyd yn sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cael eu mabwysiadu yn ein gweithgareddau caffael drwy sicrhau bod agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol yn cael yr ystyriaeth briodol.

- **Mabwysiadu'r arfer orau yn y maes** - byddwn yn adolygu ein systemau pwrcasu electroneg er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn effeithiol ac effeithlon. Gan fod ein gallu i reoli cytundebau yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian, byddwn hefyd yn ceisio datblygu ein trefniadau ar gyfer dadansoddi gwariant y Cyngor. Wrth wneud hynny, anelir i sicrhau bod ein prynwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus a deallus wrth gaffael.

- **Cynlluniau i gefnogi'r farchnad** - byddwn yn adnabod unrhyw ddiffyg yn y farchnad fesul cytundeb sydd yn rhwystro cwmnïau rhag ymgeisio am waith a chynnig cefnogaeth briodol iddynt allu ymgeisio i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen i'r dyfodol.

### Cadw'r Budd yn Lleol — Blaenoriaeth Gwella 1

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% i'w gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau.

Yn 2019/20 byddwn yn parhau gyda'r gwaith hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.


## Democratiaeth a Chyfieithu



Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth yn

- cynnal y drefn bwyllgorau ac yn cefnogi cynghorwyr yn eu gwaith
- darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion.

Rhoddir cefnogaeth amrywiol i'r 75 cynghorydd, yn eu swyddogaethau gwahanol, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd.




I'r dyfodol byddwn yn:

- Datblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill
- Paratoi at fesur Llywodraeth Leol drafft trwy ddatblygu trefniadau gwe ddarlledu a mynychu o bell
- Gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiad o'n trefniadau craffu er mwyn cyfrannu fwyfwy at wella gwasanaethau.

## Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i argyfwng.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a recriwtio a phenodi. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain y gwaith o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol, a thrwy hynny hyrwyddo arferion cyflogi da.

Mae'r tîm eleni eisoes wedi ymdrin â thua 130 o achosion unigol. Mae hefyd ar hyn o bryd yn cynghori ar faterion staffio sy'n gysylltiedig â phrosiectau fel sefydlu'r Cwmni Byw'n Iach a'r agenda ad-drefnu ysgolion.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Sefydlu dealltwriaeth o gydweithio â phob adran, fel sail i ddatblygu model busnes sy'n cefnogi rheolwyr y Cyngor i gymryd perchnogaeth o faterion adnoddau dynol dydd i ddydd
- Cydweithio â phob adran o fewn y Cyngor i ystyried a sefydlu eu hanghenion cynllunio'r gweithlu, a'u cynorthwyo a chefnogi i ddechrau mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o hynny
- Adolygu pob un o amodau gwaith lleol presennol y Cyngor, yn ogystal â datblygu rhai o'r newydd, fel eu bod yn adlewyrchu a chefnogi'r ffordd mae'r Cyngor am i'w staff weithio
- Gweithredu ar ddyfarniad tâl 2019/20 ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol a chyflwyno strwythur tâl newydd sy'n ffurfio rhan o'r cytundeb tâl cenedlaethol.

### Merched mewn Arweinyddiaeth — Blaenoriaeth Gwella 3

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan h.y. 70% merched 30% dynion.

Prif amcan y prosiect hwn felly yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Byddwn yn ymgynghori yn eang o fewn y Cyngor gyda merched ac yn tynnu ar waith sydd eisoes wedi'i gynnal mewn sefydliadau eraill.

## Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2017/18, mae'r Gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cyflwyno mynediad ar-lein i wasanaethau allu gwirio cofnodion troseddol
- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwyluso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar faterion iechyd a diogelwch, yn ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau ac yn gwirio safonau o ran trefniadau iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor.

Yn ychwanegol at hyn rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr ac yn cynnal gwyliadwriaeth iechyd ar staff.




Cynhaliwyd adolygiad o'r gefnogaeth lles meddyliol yn 2017/2018 ac adnabuwyd nifer o agweddau ar gyfer gwella gan gydnabod mai dyma'r prif reswm am salwch ymysg staff y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Prif ffrydio a chanolbwyntio ar les meddyliol, gan godi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor a hyrwyddo diwylliant o rannu profiadau a chefnogi unigolion
- Parhau i hybu model busnes newydd ar gyfer y Gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor
- Sicrhau fod pob carfan o'r gweithlu wedi eu hasesu ar gyfer yr angen am wyliadwriaeth iechyd.

## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu perthnasol, ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella ac yn datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Golyga hyn ddarparu rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau perthnasedd. Rydym yn gweithio hefo timau a swyddogion i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion.

Byddwn yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal â dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora,* dysgu trwy brofiad a defnyddio technoleg. Ein bwriad yw datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth e-ddysgu.

Byddwn yn *Datblygu'r Sefydliad* drwy gynorthwyo'r Cyngor i sefydlu a datblygu'r awyrgylch waith sy'n caniatáu i staff fod ar eu gorau, a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymddygiadau a diwylliant priodol gan ddilyn egwyddorion *Buddsoddwyr Mewn Pobl,* datblygu trefniadau

gwaith amgen a sicrhau llais i staff. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ymestyn y buddiannau presennol sydd ar gael i staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i *Gwynion*, gan hwyluso trefniadau i Wasanaethau'n cymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt.

I'r dyfodol byddwn yn:

- Cyflwyno gwasanaeth Dysgu a Datblygu ar-lein MoDS (Modiwl Datblygu Staff)
- Datblygu cynlluniau Datblygu Gweithlu'r Dyfodol (gan gynnwys Adnabod a Rheoli Talent)
- Sefydlu diwylliant Gwerthuso Parhaus sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd

## Datblygu Arweinyddiaeth

**Blaenoriaeth Gwella 7**

Mae sefydlu arweinyddiaeth sy'n gosod cyfeiriad, ysgogi eraill a chreu yr amgylchedd priodol ar gyfer ffynnu yn greiddiol i alluogi i'r Cyngor gyflawni'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud. Mae'r rhaglen ddatblygu ar gyfer miniogi sgiliau arwain Aelodau Etholedig a swyddogion yn symud yn ei flaen yn addawol iawn. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn diwethaf, tra bo'r rhan helaethaf o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau'r rhaglen datblygu sydd yn canolbwyntio ar ymddygiadau arweinwyr ac ar ddealltwriaeth o'r egwyddorion gweithredu sydd ynghlwm â sefydlu a chynnal y diwylliant newydd.

Byddwn yn parhau i gynnal y cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws ar ddiwylliant o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Byddwn yn ail-sefydlu'r 'Rhwydwaith Rheolwyr' hefyd a bydd hyn yn gyfle i reolwyr ar draws y Cyngor rannu arfer da a derbyn hyfforddiant pellach.

## Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

**Blaenoriaeth Gwella 7**

Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig - sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Rydym eisoes wedi llunio rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle ac wedi cynnal hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd i benaethiaid, uwch reolwyr a'r rhan helaethaf o reolwyr. Yn ogystal, mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith o fewn y Cyngor

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Byddwn, yn dilyn ymgynghoriad, yn cyhoeddi strategaeth ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20 tra'n parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd a chefnogi gwasanaethau efo adolygiadau ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i pa bynnag weithgaredd yr ydym yn ymwneud ag o.

## Cynllun Prentisiaethau

## Blaenoriaeth Gwella 1

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion o ddatblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf.

Byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd yn ystod 2019/20.

# Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

# Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

**Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r "gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd" drwy:**


- **Sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar.**
- **Sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch.**
- **Darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw, a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.**

## Gwasanaeth Budd-daliadau

Rydym yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhenti, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.


Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau y mae'n ein gymryd i ni dalu wedi gostwng hyd at 2017 a byddwn yn ceisio lleihau'r amser eto i'r dyfodol.

***Yn ystod 2019/20 byddwn yn parhau i gynorthwyo pobl Gwynedd fel bo'r angen yn dilyn cyflwyniad gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yn Hydref a Rhagfyr 2018.***




## Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) tua 7,500 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.





Rydym yn deall yn iawn nad yw hi'n hawdd i bawb dalu'r trethi yma, ac fe fyddwn yn ceisio bod yn hyblyg (e.e. annog trefniadau a chytundebau talu) a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Rydym yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

## Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Rydym fel gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth fynd at ei waith.

***Rydym wedi adnabod yr angen i wella prosesau adennill rhai o ddyledion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a byddwn yn cydweithio â'r Adran honno er mwyn gwneud yn fawr o'r arian dyledus sy'n cael ei gasglu ac sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau.***




**% anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod**



**2017/18**
**91%**



**2016/17**
**91%**



**2015/16**
**92%**

## Gwasanaeth Taliadau

Rydym yn gyfrifol am dalu credydwyr y Cyngor a GwE yn gywir ac ar amser. Byddwn yn talu dros 105,267 o anfonebau yn flynyddol, gyda 91% o'r anfonebau yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i flaenoriaethu talu cyflenwyr lleol yn brydlon.

***Byddwn yn symud i drefniadau o e-anfonebu a hynny er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Bydd y trefniadau yma'n lleihau'r oedi wrth dalu ac yn ein galluogi i gael rheolaeth dros yr holl anfonebau fydd yn cyrraedd y Cyngor.***


## Gwasanaeth Cyflogau

Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

***Byddwn yn adolygu pa wybodaeth sydd angen ei chynnwys ar y slipiau cyflog, megis amlygu cyfraniad pensiwn cyflogwr ac ati.***

## Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 16,000 o aelodau actif, 10,000 o aelodau gohiriedig a 9,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLlL, a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.




***Byddwn yn gwella eglurder dogfennaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddealladwy i bawb.***

## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Yn y gwasanaeth yma rydym yn buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Rydym hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar fenthyciadau tymor hir.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2017/18 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £211,000 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £173,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

***Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithio drwy bŵlio buddsoddiadau er mwyn cael y budd gorau o gyd-fuddsoddi.***

## Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys Unedau datganoledig)

Rydym yn darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o dros £405 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer cyfrifon Cyngor Gwynedd, dau Gyd-Bwyllgor a chyfrifon yr Harbwr
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu dros £48.5 miliwn o arbedion a thoriadau ers 2010/11, sydd yn 96% o'r targed arbedion, gydag ychydig o lithriad ar y gweddill. Mae'r gwaith o gefnogi'r drefn arbedion yn parhau.



**Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb**
**-0.36%**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2017/18, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.

***Byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.***


***Nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar y cyd â phobl Gwynedd i ddarganfod a dethol yr arbedion fydd eu hangen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.***

## Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma yn gadarn. Byddwn yn adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Ar gyfer 2018/19, cyflwynwyd trefn newydd o osod adroddiadau Archwilio Mewnol mewn un o bedwar categori o sicrwydd cyffredinol. Mae adborth cychwynnol wedi bod yn bositif iawn.

Cwblhawyd y drefn o ddatblygu "camau gweithredu cytunedig", sef cytundeb rhyngom â rheolwyr ar draws y Cyngor ar sut i wella rheolaeth a lleihau risgiau.




## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant ydy cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Rydym hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.

## Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

***Rydym yn gweithredu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.***

Wyneb y gwasanaeth yw'r *Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth* sy'n cefnogi 2,350 o ddefnyddwyr ac yn diwallu tua 20,000 cais am wasanaeth gan gynnwys darparu 450 cyfrifiadur newydd bob blwyddyn a 1,780 o ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen.

**% argaeledd rhwydwaith**

**2017/18 – 99.98%**
**2016/17 – 99.94%**
**2015/16 – 99.95%**



**% argaeledd Safle We Cyhoeddus**

**2017/18 – 99.41%**
**2016/17 – 99.98%**
**2015/16 – 99.62%**



Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau bod ein gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn sy'n cael ei gefnogi gan yr *Uned Isadeiledd, Teleffon a Rhwydwaith*, gan ymledu i 250 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 2,370 o gysylltiadau ffôn, ac yn cefnogi'r holl systemau yn ein canolfan data ar 440 gweinyddwr a 880TB o storfa. Er y seiliau cadarn, mae angen cyflwyno gwellianau i gryfhau gwytnwch y seiliau hyn, a bydd y gwaith hwn yn parhau drwy hanner cyntaf 2019/20.

Fe fydd y Strategaeth bresennol yn cael ei holynu gan Strategaeth Ddigidol newydd yn ystod 2019/20 gan drawsnewid ein gwasanaethau ymhellach.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu oddeutu 160 system sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd a hunan-wasanaeth i staff.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion.

***Yn ystod 2019/20 byddwn yn cynnal ymarferion pellach i gryfhau gwytnwch ein darpariaeth a'r gofyn cynyddol i gefnogi gwasanaethau 24/7 awr.***

# Gwasanaethau Cyfreithiol

# Gwasanaethau Cyfreithiol

**Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.**

## CYFREITHIOL

**Dangosyddion 2017/18**

Canran holiaduron bodlonrwydd cwsmer sy'n sgorio 10/10




**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.**

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â tua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd.

## PRIODOLDEB

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r fframwaith foesegol ar gyfer aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.**

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesegol i Gynghorau Tref a Chymuned y Sir.

## ETHOLIADAU

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd.**

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac is–etholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

### Prosiectau

Mae'r Gwasnaeth yn gweithredu ar brosiect i wella defnydd o amser ac adnoddau er mwyn gwneud y gorau o'r capasiti sydd ar gael i gynnyddu cofrestru ymhlith carfanau ble mae lefelau'n is na'r cyfartaledd, ac hefyd hyrwyddo ymhlith oedran uwchradd.


## CRWNER

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.**

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

# Gwybodaeth Ariannol

# Gwybodaeth Ariannol 2019/20




| Adran Addysg 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Ysgolion - Datganoledig | 72,854,050 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | 2,579,130 |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | 7,849,600 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Lles | 4,334,040 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,221,550 |
| **Cyfanswm** | **89,838,370** |

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Pobl Hŷn | 22,350,700 |
| Anabledd Corfforol | 3,507,340 |
| Anabledd Dysgu | 18,166,330 |
| Iechyd Meddwl | 3,598,790 |
| Gwasanaethau Tai | 1,859,920 |
| Rheolaeth, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Eraill | 2,957,170 |
| **Cyfanswm** | **52,440,250** |

| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Gwastraff ac Ailgylchu | 11,446,440 |
| Cynnal Ffyrdd | 8,202,750 |
| Glendid Strydoedd | 2,467,620 |
| Goleuadau Stryd | 1,768,850 |
| Toiledau Cyhoeddus | 706,290 |
| Cynnal Tiroedd a Meysydd Chwarae | 462,170 |
| Amlosgfa a Mynwentydd | -36,890* |
| Teledu Cylch Cyfyng | 174,020 |
| Rheolaeth Fflyd | 308,470 |
| Eraill | 208,170 |
| **Cyfanswm** | **25,707,890** |

| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd | 580,530 |
| Gwasanaethau Gweithredol | 2,210,350 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | 6,946,910 |
| Gwasanaethau Derwen | 1,793,610 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 280,220 |
| Tîm Trothwy Gofal, Tîm Nos a Gwasanaethau Eraill | 1,563,770 |
| Uned Blynyddoedd Cynnar | 144,050 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 853,580 |
| **Cyfanswm** | **14,373,020** |

| Adran Amgylchedd 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth a Chategori Corfforaethol | 453,740 |
| Gwasanaethau Cynllunio | 196,650 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 214,370 |
| Gwasanaethau Difa Pla a Rheoli Cŵn | 36,180 |
| Diogelwch, Glendid a Safonau Bwyd | 728,130 |
| Iechyd yr Amgylchedd | 478,210 |
| Safonau Masnach | 500,220 |
| Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Gorfodaeth | 544,160 |
| Cynllunio Ymlaen | 75,910 |
| Cludiant | 1,712,420 |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad | 762,900 |
| Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol | 1,432,500 |
| Swyddfeydd, Gofalwyr, Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 2,193,280 |
| Ynni | -130,290* |
| Canolfannau Cymuned, Adeiladau Amrywiol a Mân-ddaliadau | -155,060* |
| Gwasanaethau Cleient Gwarchod y Cyhoedd | -37,540* |
| Parcio a Gorfodaeth | -1,681,950* |
| **Cyfanswm** | **7,323,830** |

| Adran Economi a Chymuned 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Adfywio Cymunedol | 300,254 |
| Amgueddfeydd a'r Celfyddydau | 563,334 |
| Archifau | 389,364 |
| Comisiynu Hamdden | 1,550,962 |
| Cefnogi Busnes | -23,297* |
| Llyfrgelloedd | 1,634,474 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 105,923 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | 291,993 |
| Twristiaeth a Marchnata | 312,814 |
| **Cyfanswm** | **5,125,820** |

| Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net** |
| Peirianneg | -557,300* |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd | -40,350* |
| Uned Adeiladu | -22,210* |
| Rheoli Risg Llifogydd | 570,710 |
| Rheolaeth Adeiladu | 70,170 |
| **Cyfanswm** | **21,020** |


| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth Adrannol | 504,160 |
| Uned Cefnogi Busnes y Cyngor | 649,670 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 450,280 |
| Ymchwil a Dadansoddeg | 401,970 |
| Gwasanaeth Democrataidd a Democratiaeth | 2,204,670 |
| Gwasanaethau Iaith Gymraeg | 276,110 |
| Caffael | 259,730 |
| Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol | 615,150 |
| Iechyd, Diogelwch a Llesiant | 468,780 |
| Gwasanaeth Cefnogol | 585,990 |
| Dysgu a Datblygu | 402,080 |
| Siop Gwynedd, Galw Gwynedd, Bathodynnau Glas, Cofrestrydd | 706,770 |
| **Cyfanswm** | **7,525,360** |

| Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth Adrannol | 364,730 |
| Cyllid a Chyfrifeg | 1,193,870 |
| Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | 122,010 |
| Archwilio Mewnol | 278,120 |
| Cyflogau | 347,270 |
| Taliadau | 176,040 |
| Incwm | 433,110 |
| Refeniw Canolog | 278,040 |
| Trethi | 181,350 |
| Budd-daliadau | 389,630 |
| Technoleg Gwybodaeth - Corfforaethol | 814,800 |
| Technoleg Gwybodaeth - Rheoli Rhaglen | 265,750 |
| Technoleg Gwybodaeth - Datblygu | 655,080 |
| Technoleg Gwybodaeth - Isadeiledd | 652,400 |
| Technoleg Gwybodaeth - Cefnogol | 376,080 |
| **Cyfanswm** | **6,528,280** |

| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol 2019/20 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a chyllidebau cynlluniau penodol | 571,190 |
| Cynlluniau Argyfwng *(yn ymddangos yng nghynllun adrannol Cefnogaeth Gorfforaethol)* | 111,040 |
| Swyddog Monitro a Phriodoldeb | 131,470 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 623,770 |
| Cofrestru Etholwyr | 157,640 |
| Crwner | 281,790 |
| Etholiadau | 22,960 |
| **Cyfanswm** | **1,899,860** |

**** ffigyrau negyddol gan fod incwm yn fwy na'r gwariant.***

# Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd



## DATGANIAD LLESIANT CYNGOR GWYNEDD 2019/20

### Cyflwyniad

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Fe adolygwyd y gyfres wreiddiol o amcanion llesiant (a fabwysiadwyd ar gyfer y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor 2017/18) fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23. Mae'r dystiolaeth a gymerwyd i ystyriaeth yn cynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gyda Aelodau Etholedig ar draws y Sir, adborth o sesiwn ymgynghori gyda aelodau Pwyllgorau Craffu y Cyngor, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Defnyddiwyd y wybodaeth hyn i ddatblygu'r gyfres newydd o amcanion llesiant ar gyfer 2018/19 a bu i ni hefyd edrych i grynhoi, mireinio a gwella ar y gyfres wreiddiol o amcanion a fabwysiadwyd. Wrth adolygu ein hamcanion llesiant ar gyfer 2019/20 teimlir fod y dystiolaeth uchod yn parhau i fod yn gyfredol ac felly bydd ein hamcanion llesiant yn parhau fel ag yr oeddent.


### Uchelgais ac Amcanion Llesiant y Cyngor

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Bydd gwaith dydd i ddydd y Cyngor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu hadnabod yng Nghynllun y Cyngor 2018-23 yn cyfrannu tuag at yr amcanion uchod.

**Nodau Llesiant Cenedlaethol**
Ceir crynodeb o'r nodau llesiant cenedlaethol isod.




## CYMRU LEWYRCHUS

Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.

## CYMRU GYDNERTH

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

## CYMRU IACHACH

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.

## CYMRU FWY CYFARTAL

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

## CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

## CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

### Sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol?

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 7 o amcanion llesiant sy'n cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir hefyd bod ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

| Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn: | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

**Sut y byddwn yn gweithredu i'r dyfodol?**
Wrth gyflawni ein gwaith fe fyddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi eu mabwysiadu'n genedlaethol:

- **Tymor Hir** - Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- **Atal** - Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.
- **Integreiddio**- Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.
- **Cydweithredu** - Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau
- **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)** - Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Mae ein gwasanaethau eisoes yn gweithredu mewn ffordd sy'n dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy gan fabwysiadu ymagwedd hirdymor a dull cydweithredol, gan weithio mewn partneriaeth a chynnwys sefydliadau, unigolion a chymunedau. Yn ogystal, rydym yn gweithredu yn ataliol lle'n bosib wrth ymateb i anghenion cyfredol a lleihau dibyniaeth, e.e. ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar ôl dweud hynny, mae dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cynnig y cyfle inni fel Cyngor i gymryd stoc o'r hyn rydym eisoes yn ei wneud i weithio mewn ffordd gynaliadwy a gosod uchelgais i ni'n hunain ar gyfer y cyfnod nesaf.

Bydd unrhyw benderfyniadau ariannol yn rhoi sylw gofalus i'n gallu i gyflawni'r hyn rydym wedi ei amlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2018-23, a byddwn yn adolygu'r hyn rydym yn ei wneud yn barhaus er mwyn sicrhau fod llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol yn rhan ganolog o'r ffordd rydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau.